# Y BIGWN

CYF. 30 RHIF 2 EBRILL 2018 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*


# SWYN, DEMENTIA, HUW A KEN DODD



Sw yn tud 15



Huw tud 18



Y Bwystfil o'r Dwyrain tud 19



Pwy di hwn? tud 14

**Mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn erbyn Dydd Gwener, Ebrill 20 - Ar Werth Mai 5ed, 2018**

# Gair gan y Golygydd

Wyddoch chi nad ydi traean o'r bobl sy'n byw efo dementia yn teimlo'n rhan o'r gymdeithas neu'r gymuned mae nhw'n rhan ohoni? Pe bai rhywun yn gofyn yr un cwestiwn i'r gweddill ohonom, be fuasai'r ateb?

Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus yn Hwb Dinbych yn ddiweddar gyda'r nôd o egluro beth ydi Cymuned Gyfeillgar Dementia a sut y gallwn ni fel cymuned yn Ninbych wneud ein rhan i wneud gwahaniaeth i bobl sy'n byw efo dementia er mwyn iddynt barhau i deimlo'n rhan o'u cymuned.

Braf oedd gweld fod yna lawer o bobl wedi dangos diddordeb ac mi fydd yna fwy o gyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal yn y misoedd nesaf er mwyn i ni i gyd gael cyfle i weld sut y gallwn ni wneud gwahaniaeth. Braf fyddai i bawb sy'n byw efo dementia yn Ninbych gael gwybod fod aelodau'r gymuned leol yn deall mwy am ddementia, yn gwerthfawrogi eu cyfraniad i fywyd y dref ac yn eu cefnogi. Mae cyfle inni i gyd wneud ein rhan.

Drama bwerus a chofiadwy oedd **Y Tad**, cynhyrchiad diweddaraf y Theatr Genedlaethol. Ynddi mae Arwyn, y tad, yn raddol suddo o dan ormes dementia. Llwyddodd y ddrama i gyfleu dryswch dementia a'i effaith ar y teulu. Roedd hi'n gymysglyd weithiau i ni'n y gynulleidfa o ran beth oedd yn digwydd go iawn yn y ddrama a beth oedd yn digwydd ym meddwl Arwyn. Cyfleu roedden nhw y dryswch roedd Arwyn ynddo fo.

O wylio'r ddrama, 'rwyn deall dipyn mwy am ddementia ac yn barod i gefnogi.

-----------------------------

Mae Huw, ein cartwnydd, wedi cyfrannu i bob rhifyn o'r Bigwn ers y rhifyn cyntaf ym mis Mawrth 1988 - dyna 292 o gartwnau i gyd! I ddangos ein gwerthfawrogiad ac i ddathlu'r achlysur, byddwn yn cyhoeddi rhifyn arbennig o'r Bigwn, 'Cartwnau Huw' sy'n cynnwys holl gartwnau Huw. Byddwn yn lansio 'Cartwnau Huw' yn Siop Clwyd, bore Sadwrn, Ebrill 14eg. pryd y bydd Huw yn llofnodi copïau. Rhoddodd Huw addewid yn 1988 y byddai ei gartwnau yn dwyn gwên ym mhob rhifyn a do, mi lwyddodd. Diolch, Huw. Diolch hefyd i Hywel am gyhoeddi'r gwaith.

-----------------------------

Fel y gwyddoch, fe gynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych yn 2020. Targed Pwyllgor Apêl Tref Dinbych yw £60,000 ac i lansio'r apêl, cynhelir Noson i'r Teulu yn y Clwb Rygbi, Nos Wener, Mai 18ed. am 7yh. Hefyd, mae modd i chwi gyfrannu at y gronfa leol drwy ddefnyddio'r amlen amgaeedig.

--------------------------------

Diolch i bawb sydd wedi fy nghynorthwyo y mis hwn a diolch i bawb a gyfrannodd i'r rhifyn hwn o'r Bigwn.

**Erfyl Williams**

## BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

| | |
|---|---|
| Alun a Lilian Jones | £ 20.00 |
| Gwyneth Kensler | £ 15.00 |
| Carys Glaberson, Brighton | £ 10.00 |
| Eira Denman, Trewen | £ 10.00 |
| Di Enw | £ 10.00 |
| Gwenan Ellis | £ 10.00 |
| Siop Siocled | £ 6.00 |
| Di Enw | £ 5.00 |
| Mair Jones, Llys Marchell | £ 5.00 |
| Beti Jones, Trewen | £ 5.00 |
| Dr Hywel ac Eiddwen Watkin | £ 5.00 |
| Helen Owen, Lôn Derwen | £ 5.00 |

## Dyddiadur

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020**
**Pwyllgor Apêl Tref Dinbych**
Nos Lun, Ebrill 9fed am 7yh
Yn Swyddfa'r Urdd

**Cymdeithas y Bigwn**
Nos Iau, Ebrill 26ain am 7.30 yh. Cyfarfod i drafod cefnogi Eisteddfod yr Urdd 2020.
Am fwy o fanylion, cysylltwch â Nerys Davies ar 01745 812239
CROESO CYNNES I BAWB

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020**
**Pwyllgor Apêl Tref Dinbych**
Nos Wener, Mai 18fed am 7yh i lansio'r apêl Noson i'r Teulu yn y Clwb Rygbi,
Bar ar agor, bwyd poeth a gweithgareddau i'r plant
£7 i oedolion £3 i blant

**Gwefr Heb Wifrau** - "Yr Efe - Syr T.H. Parry-Williams a'r Isymwybod" yw teitl darlith Ioan Talfryn ar **Ebrill 27ain** yn Amgueddfa Gwefr heb Wifrau.

**Mehefin 29** Noson Goffi a Hwyl yn Ysgol Llanrhaeadr - MENCAP Dinbych a Rhuthun

## RHESTR Y SWYDDOGION


**CADEIRYDD**
- Stan Lyall 813659

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones
01745 812214
russelljones9@talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
Berwyn Roberts (812672)
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Catrin Warren (814675)
Ceredig Gwynn (815701)
Ruth Williams (812822)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Ffion Whitham (01824 704642)
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk



Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Cyfarchion



Penblwydd hapus i Cynan ap Dyfed yn 5 oed ar Ebrill 18fed.
Cariad mawr oddiwrth Dad, Mam, Owain a Sion, Taid Alun a Nain Lil, Taid Bryn a Nain Cath a'r teulu i gyd xxxx

# Diolch



Diolch yn fawr am eich cyfarchion, cardiau ac anrhegion ar achlysur geni Mari Elinor oddi wrth Gwenno, Tony ac Ifan. xx

# Ymddeoliad



Dymunwn ymddeoliad hapus i Arwyn, Ymgymerwr Angladdau Cwmni R.W. Roberts a'i Fab. Cafwyd parti i'w anrhydeddu ym Melin Brwcws yn ddiweddar gyda thyrfa dda yn bresennol. Diddanwyd y gynulleidfa gan John Ieuan Jones, y baritone ifanc a chafwyd canu cymdeithasol i gyfeiliant Geraint, brawd Arwyn.
Darllenodd Y Parch Ifor ap Gwilym engylion o waith Dafydd Emrys:

O ddydd i ddydd yn ddiau – heneiddio
Yn raddol wnest dithau,
Yn syml, nid oes amau
Nad yw neb yn mynd yn iau!

Gofal i rai mewn galar – a roddaist,
A'i roddi yn dringar.
A rhoi hyn, cyn rhoi eu câr
I dawel fynwes daear.

Rhoist dy barch i arch o hyd – a'i rannu
Â charennydd hefyd,
A'i roi i oll yn ei bryd
A welodd farw anwylyd.

Y gân fu dy ogoniant – yn dy lais
Oedd dy lef ddiffuant,
Ti yno, yn taro tant
A oedd yn rhan o'th lwyddiant.

Daeth amserlen hamddenol – i dy ran
Wedi'r rhuthr arferol,
Llawn o hoe wrth sefyll nôl
Yw addewid ymddeol.

Nodau mwyn yw'r dymuniad – a rown ni
Ar newid dy ganiad.
Mynnu a wnawn bob mwynhâd
Yn alaw d'ymddeoliad.

Bydded fy ddyddiau'n ddedwydd – a hir oes
Ar rasol adenydd,
A byw y daith, gwna bob dydd
Yn llawn ysbryd llawenydd.

Dafydd Emrys

# Pigion diddorol o rifyn Ebrill 1988




**Dawn y Cartwnydd**

Dawn anghyffredin iawn yn y Gymraeg ydi dawn y cartwnydd ac mae'r Bigwn yn ffodus iawn bod un o hogia'r dre 'ma'n abl ac yn barod i lunio cartwnau i'r papur. Mae mwy i gartwn na gwneud llun doniol ar bapur ac mae gan Huw Vaughan Jones ddawn arbennig i gosi, i grafu ac, ambell waith, i ddychanu mewn gair a llun.

Nid ar chwarae bach y mae meistroli'r grefft. Fe fu Huw yn fyfyriwr am dair blynedd yng Ngholeg Celf a Chynllun, Cartrefle lle bu'n astudio graffeg, dylunio a bywddarlunio (animation). Yn ystod ei gyfnod coleg fe ddangoswyd peth o waith bywddarlunio Huw ar y rhaglen deledu "Take Hart", rhaglen sy'n apelio at blant a phobl mewn oed fel ei gilydd.


Bellach mae'n gweithio fel dyluniwr hunangyflogedig o'i gartref ym Mrynteg, Dinbych ac yn gwneud enw iddo'i hun ym myd cyhoeddiadau Cymraeg. Eisoes fe wnaeth waith dylunio ar gyfer Cyngor Sir Gwynedd, Adran Addysg Cyngor Sir Clwyd a Chanolfan Adnoddau Coleg Prifysgol Aberystwyth. Mae ei waith hefyd yn ymddangos yn "Cip", cylchgrawn newydd Urdd Gobaith Cymru.

Gwahoddwyd ef i dreulio wythnos fel arlunydd preswyl gan Gymdeithas Gelfyddydau Gorllewin Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun, pryd y cafodd miloedd yr eisteddfod gyfle i weld artist wrth ei waith ar y maes.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd erthygl am Huw yn "Cyfrwng", cylchgrawn misol Canolfan Adnoddau Aberystwyth. Ond yn fwy pwysig i ni, ddarllenwyr y Bigwn, mae Huw wedi addo y bydd ei gartwnau yn dwyn gwên i'n hwynebau ym mhob un rhifyn o'n papur bro.

**(Y Bigwn, Ebrill 1988)**

**Nafratilofa Arall?**




Prif ddiddordeb Mair, sy'n ddisgybl yn yr ail flwyddyn yn Ysgol Glan Clwyd yw chwarae tenis. Mae'n cystadlu ar y cyrtiau ers ymron i ddwy flynedd bellach ac wedi ennill sawl cwpan. Pigwrn ei hymdrechion y llynedd oedd ennill Pencampwriaeth Cymru dan ddeuddeg a phedair ar ddeg yng Nghaerdydd yn ystod Mis Awst. Ei champ ddiweddaraf oedd ennill pencampwriaeth 'dan do' Cymru dan bedair ar ddeg yn ystod Mis Chwefror. Mae Mair wedi chwarae bum gwaith i Gymru – y tro diwethaf ddiwedd Chwefror pan enillodd tîm Cymru 16-2 yn erbyn yr Alban a 14-4 yn erbyn Gogledd Ddwyrain Lloegr.

Teithio i bob cwr o Brydain yw ei hanes yn ystod y penwythnosau neu ei gwadnu hi am Gaerdydd i ymarfer neu i gystadlu.

Amser i ymarfer a gwella safon y chwarae yw misoedd y Gaeaf. Rhaid treulio oriau lawer gyda'r hyfforddwr. Mae'r cyfleusterau yn brin yng Ngogledd Cymru ond bydd Mair i'w gweld o leiaf ddwywaith yr wythnos ar y cyrtiau dan do ym Mae Colwyn. Ymdrechion i wella sgiliau'r wrthlaw sy'n cael blaenoriaeth ar hyn o bryd.

Mae'n edrych ymlaen eleni am gael mynd i Wimbledon am ddiwrnod neu ddau i weld y goreuon wrth eu gwaith.

**(Y Bigwn, Ebrill 1988)**

**Mynd Dramor**

Mae Trefor Griffiths, ynghyd â dau o'i gydweithwyr yn Adran Opteg Pilkington P.E. Llanelwy, ar fin cychwyn blwyddyn o waith mewn gwlad dramor. Mae Trefor yn 24 mlwydd oed ac yn gyn-ddisgybl Ysgol Twm o'r Nant ac Ysgol Glan Clwyd. Ef yw'r canol o dri mab Mr. a Mrs. Cecil Griffiths, 38 Lôn y Fedwen Arian.

Mae Trefor yn aelod o Glwb Ceir Dyffryn Clwyd a gwnaeth enw iddo'i hun ym maes raliau ceir. Enillodd Bencampwriaeth Cymdeithas Clybiau Ceir y Gogledd Orllewin y llynedd. Ei gar ar hyn o bryd yw Escort 2.0l. Dyma'r pumed car iddo adeiladu ei hun.

Bydd Trefor yn gadael Dinbych ar Fawrth 30ain. Mae ei fam yn bryderus y bydd tywod yn ei frechdanau yn y wlad boeth sy'n ei ddisgwyl. Pob lwc a llwyddiant iddo.

**(Y Bigwn, Ebrill 1988)**

**Pendref – Yr Eglwys Fethodistaidd**

Ym mis Ebrill, mawr yw ein braint yma ym Mhendref, yn cael bod yn gartref i Synod Talaith Cymru o'r Eglwys Fethodistaidd. Y mae hon eleni yn Synod arbennig iawn gan ein bod yn 1988 yn dathlu pumed jiwbili troedigaeth John Wesley. Trefnwyd nifer o gyfarfodydd a hyderwn y cawn gefnogaeth aelodau eglwysi eraill yn y dathliadau hyn.

**Bore Sul, Ebrill 10** am 10 o'r gloch bydd y B.B.C. yn recordio "Oedfa'r Bore" o Bendref. Pregethir gan ein gweinidog, Y Parch Thomas Evans Williams, Henllan.

**Nos Sul, Ebrill 17** – Cymanfa Bregethu am 10 ym Mhendref a 5.30 yn Salem. Pregethir gan Y Parch. Dennis Griffiths, Wrecsam.

**Nos Lun, Ebrill 18** – Aelodau o Gylchdaith Dyffryn Clwyd yn cyflwyno'r pasiant, "JOHN WESLEY" (gan Y Parch. a Mrs Tom Evans Williams) am 7 o'r gloch.

**DALIER SYLW**

Oherwydd fod tocynnau'r Pasiant ar y Nos Lun wedi eu gwerthu i gyd, bydd AIL BERFFORMIAD O'R PASIANT "JOHN WESLEY" AR NOS FERCHER, EBRILL 20fed am 7 o'r gloch.

**Nos Fercher, Ebrill** - "PEDAIR CANRIF YN IAITH EIN MAMAU" - Darlith gan Yr Athro Owen E. Evans M.A.,B.D. (Cadeirydd panel cyfieithwyr Y Beibl Cymraeg Newydd) gydag eitemau cerddorol gan Tecwyn Savage, Iwan Davies, Angela Jones, Gwen Parry Jones, Ceri Ann Hughes, Ffion Eleri Hughes a Marianne Roberts. Cyfeilydd: Rhys Jones.


Cyflwynydd: Y Parch. T. Evans Williams. Gwneir casgliad rhydd at dreuliau'r Synod.

Estynnwn wahoddiad cynnes i chwi ymuno â ni yn y dathliadau.

**(Y Bigwn, Ebrill 1988)**

**Cymdeithas Caledfryn**

Clwb Cinio Cymraeg i ddynion cylch Dinbych yw Cymdeithas Caledfryn. Cynhelir cyfres o gyfarfodydd yn fisol dros gyfnod y gaeaf yn y Llindir, Henllan. Daw'r aelodau o



Maureen Rhys

ddalgylch gweddol eang – Dinbych, Trefnant, Llannefydd, Henllan, Llandyrnog ,Y Groes, Nantglyn ac yn y blaen. Bellach mae dros 70 o aelodau a rheini'n ôl eu galwedigaethau'n adlewyrchiad teg o'r gymuned leol. Mae pawb yn cael hwyl yn sgwrsio efo ffrindiau hen a newydd, yn gwrando ar y siaradwr gwadd ac yn mwynhau pryd blasus o fwyd.
Agorwyd y tymor gan Dei Tomos. Roedd ganddo swp o straeon difyr am ei ddyddiau ysgol yng Nghaernarfon ac am ei waith fel Trefnydd yr Urdd ym Mhowys.
Ym mis Hydref cawsom noson llawn hwyl yng nghwmni Ifor Owen, Llanuwchllyn, dyn sydd wedi gwneud cyfraniad amhrisiadwy i addysg a'r bywyd Cymraeg.
Daeth nifer o aelodau at ei gilydd ar ddiwedd Tachwedd i wrando ar sgwrs hynod o ddiddorol gan blismon enwocaf Cymru ac un o ddynion dewraf ein cenedl, Arthur Rowlands. Soniodd Arthur am ei brofiadau ac yn arbennig am y trychineb a ddaeth i'w ran ar Bont-ar - Ddyfi ar y noson dywyll honno yn ôl ym 1951 pan gollodd ei olwg.
Cafwyd 'Cwis Llais a Llun' dan ofal Tudur Aled, Llanelwy ym mis Ionawr a noson ddiddorol iawn oedd hi hefyd.
Er i'r gŵr gwadd, John Ogwen, fethu â dod i'r Cinio Gwyl Ddewi a gynhaliwyd ym Melin Brwcws, daeth dros 80 o aelodau a'u gwragedd i wrando ar wraig John, yr actores enwog, Maureen Rhys.
**(Bigwn, Ebrill 1988)**

Os ydych am waith trydanol cysylltwch â
JOHN HOWATSON
TRYDANYDD
MINFFORDD, FFORDD RHYL, DINBYCH.
Rhown amcan-bris rhesymol
Am unrhyw waith trydanol
O drwsio ffiws i weirio ty
Cewch fynnu job ragorol.
FFÔN: DINBYCH 3054

Bigwn, Ebrill 1988

Guthrie Jones a Jones Cyfreithwyr
Osian Roberts LL.B , Nansi Thirsk LL.B,
Dylan Edwards B.A.,LL.B
29 Ffordd Rhuthun, Dinbych LL16 3EH
Ffôn: 01745 814 817 dinbych@guthriejj.co.uk
GWASANAETH CYFREITHIOL CYFLAWN YN Y GYMRAEG
yn y Swyddfa neu Gartref

# Y Capeli

## CAPEL BRWCWS

Dydd Sul, Chwefror 18ed agorwyd yr Ysgol Sul gan Gwilym Williams.
Mr Tudur Hughes, Llanrwst oedd y cennad yn y prynhawn. Eleanor Roberts oedd yr organyddes.

Ar y Sul olaf o fis Chwefror Catrin Jones fu'n gyfrifol am y rhannau dechreuol yn yr Ysgol Sul.
Yr oedd yr Oedfa Gymun yn y prynhawn dan ofal ein Gweinidog, y Parch. Andras Iago. Carolyn Thomas oedd wrth yr offeryn.

Dydd Sul, Mawrth 4ydd, er garwed y tywydd, cawsom ymuno yn Oedfa Gwyl Ddewi y dref yn Eglwys y Santes Fair. Bu i Carolyn Thomas ein cynrychioli gyda darlleniad. Yn y prynhawn cawsom ddod at ein gilydd, yn oedolion a phlant, ar gyfer cinio'r Sul ym Melin Brwcws. Diolch i Edna Williams am drefnu.

Dydd Sul, Mawrth 11eg cawsom hanes Sul y Mamau gan Rhian Cattell, Cari a George ar ddechrau'r Ysgol Sul.
Croesawyd y Parch. Dafydd Rees Roberts atom yn y prynhawn. Carolyn Thomas oedd wrth yr organ.

## CAPEL Y FRON

Fe gawsom wasanaeth Mr. Dilwyn Jones bore Sul, Chwefror 18fed.
Eleni cynhaliwyd oedfa undebol i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant yn Eglwys Santes Fair ar fore Sul, Mawrth 4ydd.
Roedd y gwasanaeth wedi ei drefnu ac o dan ofal y Parchedig Pauline Walker gydag aelodau o gapeli'r dref yn cymeryd rhan a Mrs. Gaynor Prew oedd yn ein cynrychioli ni.
Oherwydd gerwinder y tywydd ni chynhaliwyd oedfa nos.
Gwnaeth Mr. Richard Snelson estyn croeso i Mr.Tudur Hughes atom nos Sul, Mawrth 11eg a diolch iddo am ei wasanaeth ac am iddo ddod ar fyr rybudd.
Mrs. Iona Edwards a Mrs. Eiri Jones fu'n cyfeilio yn ystod y mis.

## Y CAPEL MAWR A SEION

Cafwyd oedfa Gymun ar y Sul olaf o fis Chwefror dan arweiniad y Gweinidog. Mrs Catrin Warren oedd wrth yr organ.
Y Parch. Dafydd Rees Roberts, Llandudno, oedd y cennad ar Fawrth 11eg.

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych

Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR

GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

Croesawyd ef gan Mr Ifor John Jones, llywydd y mis. Yr organyddes oedd Mrs Catrin Warren.
Ni chynhaliwyd gwasanaeth ar Fawrth 18fed oherwydd y tywydd garw, ond erbyn y nos Fercher ganlynol roedd gerwinder y gaeaf wedi llacio a bu modd cynnal swper ar y cyd gyda'r Fron a'r Brwcws i ddathlu Gŵyl Ddewi.
Y wraig wadd oedd Mrs Haf Evans, Henllan, a chyflwynodd sgwrs o dan y testun **Degawdau o Lefaru** gan gyflwyno darnau a oedd yn amrywio o'r dwys i'r ysgafn ac o'r doniol i'r dirdynnol.
Cyfeiriodd at ddechrau cystadlu yn ddeuddeg oed mewn eisteddfod yn yr ysgol, a datganodd ei diolch i'r rhai a ddylanwadodd arni ar hyd y blynyddoedd. Penllanw'r cystadlu yn y cyfnod cynnar oedd gwneud y dwbl, sef ennill yn yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.
Mynegodd ei diolch i'r Ŵyl Ysgol Sul am y cyfleon a roddodd iddi pan oedd yr ŵyl yn ei hanterth.
Am ddegawd ar dro'r ganrif bu'n hyfforddwraig lwyddiannus i Barti Meirchion, a chafodd y pleser a'r anrhydedd o feirniadu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2017.
Cyflwynwyd hi gan Mr Stan Lyall a diolchwyd iddi yn feistrolgar gan Mrs Pamela Lloyd.
Diolchodd Mrs Lloyd hefyd i'r criw a fu'n gofalu am yr arlwyaeth ardderchog a gafwyd, sef Angharad ac Aled Rhys, Cheryl a Wayne Williams ac Ann Lyall.
Dim ond criw bychan a ddaeth ynghyd, ond er hynny cafwyd noson i'w chofio.



Mrs Haf Evans

## AELWYD CAPEL MAWR

Buom yn dathlu Gŵyl Ddewi yn ein cyfarfod mis Chwefror. Dechreuwyd gan Olwen Roberts yn darllen penillion am Gŵyl Ddewi a'r emyn "Dros Gymru'n Gwlad".
Croesawyd pawb a chroeso arbennig i'r gŵr gwadd, John Eric Hughes, Abergele. Mae yn gyn brifathro, yn fardd llwyddiannus ac yn weithgar iawn yn ei gymuned. Braf hefyd oedd cael croesawu Meirwen.
Rhai o enwogion Cymru oedd testun ei sgwrs. Cawsom engreifftiau o gerddi R. Williams Parry i bobl fel Saunders Lewis a Hedd Wyn; ac i fyd natur fel 'Y Llwynog',' Y Gylfinir' ac 'Eifionydd'. Er bod y cerddi hyn yn gyfarwydd i ni, roedd darllen a thrafod y darnau yn rhoi golwg newydd arnynt.
Siaradodd hefyd am Tom Pistyll oedd yn bregethwr mawr, yn llenor ac yn gerddor. Cawsom engreifftiau o'i waith yntau hefyd ac yn enwedig ei ddywediadau cofiadwy.
Y trydydd gŵr enwog y soniodd amdano oedd Thomas H. Parry Williams, Rhyd Ddu. Cyfeiriodd at ei ffordd dawel ddirodres yn sylwi ar bethau di-nod fel 'Y Ferch ar y Cei yn Rio.' Roedd ei gefnder Thomas Parry wedi dylanwadu llawer arno.
Diolchwyd iddo gan Ronwy Rogers ac i bawb fu'n cyfrannu a pharatoi tê Gŵyl Ddewi.
Buom yn meddwl am lawer o aelodau'r capel sydd ddim yn dda ar hyn o bryd, a dymunwn y gorau iddynt.

**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

DBP
Home Improvements N.Wales

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 815555**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

# Y Cymdeithasau

*Y modelau yn eu gwisgoedd*





*Aelodau'r Pwyllgor a fu'n brysur yn paratoi y lluniaeth*

## MERCHED Y WAWR, DINBYCH a'r CYLCH

Roedd cyfarfod mis Chwefror o'r gangen yn un o dan yr enw '*Sioe Ffasiwn Siop Elusen'.* Syniad y noson oedd bod yr aelodau oedd yn dymuno cymryd rhan fod wedi bod yn siopa mewn Canolfan Elusennol am wisg am bris o uchafswm oddeutu £10. Mair Spencer oedd Llywydd y noson a hi oedd yn cyflwyno'r 'modelau' – Mary Mars, Ann Mortimer, Mary Jones, Angharad Rhys, Magi, Llinos Evans, Nia Rowlands, Margaret Williams, Olwen Rowlands, Lis Morris, Annwen Roberts, Carys Williams, Mair Roberts, Ann Jones-Evans a Mair Spencer ei hun. Cafwyd amrywiaeth o wisgoedd - dillad fuasai'n addas ar gyfer priodas, nifer o gotiau, bagiau llaw a dillad ymarfer a dilledyn nad oedd Mair Spencer ddim yn siwr sut oedd ei wisgo! Doedd 'run wisg wedi costio mwy na £10 ac,wrth gwrs, roedd nifer o elusennau wedi elwa o'r noson hefyd.



*Mair Spencer yn ei gwisg*

Rhoddwyd y raffl gan Elizabeth Floyd a'r enillydd oedd Mair Jones.

Ar nos Fercher, Mawrth 7fed, roeddem yn dathlu Gŵyl ein Nawddsant, gyda thair cangen arall, sef Henllan, Llansannan a Llanrhaeadr yn ymuno hefo ni. Roedd tua 40 ohonom yno a chawsom bryd o gawl cennin a thatws wedi ei baratoi gan aelodau pwyllgor y gangen ac yna cacen gri a bara brith.
Cawsom adloniant o ganu alawon gwerin gyda'n gilydd – y Gwcw Fach, Gyrru'r Ychen, Cân Crwtyn y Gwartheg a Cyfri'r Geifr. Yna, fe ddangosodd Angharad Rhys nifer o esiamplau o'i gwaith llaw, sef croesbwyth a chwiltio. Roedd wedi dod â phedwar cwilt hefo hi i ddangos i ni, a phawb wedi syfrdanu arnynt, ynghyd â dau lun groesbwyth, gydag un o eiriau "Buchedd Garmon" arno a oedd yn clymu i mewn yn addas wedyn gan fod Ann Mortimer yn darllen y geiriau hynny allan o argraffiad cyntaf o'r llyfr yn 1937.

Rhoddwyd y raffl gan Olwen Roberts ac fe'i enillwyd gan Carys Jones.
Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 4ydd, pan fyddwn yn croesawu Teleri Roberts o Nantglyn atom i siarad am Adweitheg.
**Annwen Roberts**

## Cymdeithas y Chwiorydd y Fron a'r Brwcws

Llywyddwyd gan Dilys a groesawodd bawb gan gynnwys y dynion! Fe gydymdeimlwyd ag Edith sydd wedi colli ei chwaer. Roedd y rhan defosiynol hefyd yn nwylo Dilys.
Croesawyd y ddau westai, Dafydd Lloyd Jones a Clwyd Wynne. Testun eu sgwrs oedd Ysbyty Gogledd Cymru 1848 – 1995. Dyma ran o'u sgwrs: -
Pan sylwyd fod y Cymry'n cael eu camdrin yng ngwallgofdai Lloegr oherwydd yr anawsterau mewn cyfathrebu rhwng y cleifion uniaith Gymraeg a'r staff, penderfynwyd agor seilam yng Ngogledd Cymru. Fe'i cwblhawyd i 200 o gleifion yn Ninbych yn 1848 yn dilyn casgliadau a rhoddion gan gynnwys rhodd o £50 gan y Frenhines Fictoria.
Roedd yr adeilad gwreiddiol ar ffurf sgwâr gyda chaeau o gwmpas i ddarparu bwyd ar gyfer yr ysbyty. Gwahanwyd y merched a'r dynion ac roedd llety ar gyfer y staff hefyd yn ogystal â chapel, cegin a storfeydd gyda golchdy yn y canol. Amgauwyd "airing courts" lle y gallai cleifion gael awyr iach ac ymarfer corff o fewn terfynau.



Dafydd Lloyd Jones a Clwyd Wynne.





Dr Frank Jones

Yn 1862 cafwyd dau estyniad ar gyfer 150 o gleifion a chapel ar gyfer 200 ac o fewn 20 mlynedd, roedd yn rhaid adeiladu ar gyfer 150 o gleifion ychwanegol. Erbyn diwedd yr 80au penderfynwyd adeiladu estyniad mawr. Dechreuwyd yn 1898 ac erbyn ei orffen 12 mlynedd yn ddiweddarach, gallai ddarparu ar gyfer 1000 o gleifion.

Yn 20au'r ugeinfed ganrif fe brynwyd Gwynfryn, yna yng nghanol y 30au adeiladwyd dau adeilad newydd yn ogystal â phrynu Pool Park ac erbyn hynny, roedd cyfanswm y cleifion yn 1500.


Yn ystod yr hanner can mlynedd ers ei adeiladu, roedd yr amodau yn anodd iawn oherwydd gorlenwi a phrinder staff. Nid oedd triniaethau na meddyginiaethau ar gael ar y pryd, dim ond gwaith a hamdden. Roedd yr holl gleifion oedd yn ddigon iach yn gweithio. Roedd llawer yn gweithio ar y fferm ac yn y gerddi gan iddynt ddod o gefndir amaethyddol ac eraill yn gweithio yn y ceginau, golchdy, glanhau wardiau, ac fel teilwriaid a chryddion ac yn yr ystafell wnïo a hefyd yn gweithio i gynnal a chadw'r adeilad.

Yn y dyddiau cynnar roedd gweithgareddau awyr agored yn yr haf fel bowlio, sgitls a cherdded o amgylch yr ardal wledig gyfagos. Yn y gaeaf fe drefnwyd Dawns Flynyddol bob blwyddyn o tua Nadolig 1851 gan gynnwys dawnsio, cyngerdd a phryd o fwyd.

Wrth i'r ganrif fynd yn ei blaen, doedd fawr o ddatblygiadau mewn triniaethau meddygol. Roedd tua 50% o'r cleifion yn gweithio a gweithgareddau hamdden yn awr yn cynnwys cyngherddau a dramâu gan y staff, grwpiau o'r gymuned yn dod i mewn i ddiddanu'r cleifion a dawnsfeydd wythnosol yn cael eu cynnal gan fand yr ysbyty a ffurfiwyd yn 1870. Ffurfiwyd côr hefyd yr un pryd.

Ar ddechrau'r 20fed. ganrif penodwyd swyddog meddygol cynorthwyol newydd o'r enw Dr. Frank Jones a ddylanwadodd yn fawr ar weithgareddau adloniant yr ysbyty. Fe drefnodd gerddorfa i helpu gyda'r canu yn y capel a gwella'r cyngherddau, dramâu a'r operâu a oedd bellach yn cael eu perfformio yn rheolaidd ar gyfer y cleifion. Trefnodd bêl-droed, bowlio a chriced a dechreuwyd cystadlu yn erbyn timau lleol. Roedd ei gydweithiwr, Dr. Herbert â diddordeb mawr yn y mathau newydd o adloniant fel y Magic Lantern.

Roedd gwaith yn dal i fod yn un o'r prif fath o driniaethau i'r cleifion a'r cleifion yn parhau i gael eu defnyddio ym mhob un o adrannau prysur iawn yr ysbyty gyda chynifer â 30 i 40 yn gweithio yn y gegin a'r golchdy a dros gant yn y fferm a'r gerddi.




Yr Eisteddfod

## Cymdeithas Caledfryn



Aneurin a Rod

Anhygoel. Ardderchog. Arbennig. Dyna rai o'r ansoddeiriau a ddefnyddiwyd gan yr aelodau i ddisgrifio lluniau Aneurin Phillips, ffotograffydd dawnus a chyn brif weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri. Ef oedd gwestai mis Chwefror a 'Gwylltiroedd y Byd' oedd testun ei sioe luniau ar y sgrîn fawr.

Mae Aneurin yn teithio'r byd yn tynnu lluniau bywyd gwyllt a thirluniau.

Yn Japan gwelsom fwncïod yn chwarae yn y dŵr ac ar ynys Hokkaido yng ngogledd yr ynys lle mae'r rhew a'r eira'n her i dynnwr lluniau, mae'r eryr môr, yr eryr stellar, yn pysgota o'r awyr ac yn ymladd gyda'r garan copa coch.

Mewn parc bywyd gwyllt yn Sambia yn Affrica, mae'r eliffant yn ddiogel yn ei gynefin. Yno hefyd



siop siocled
01745 814864 dinbych
RWAN YN DERBYN ARCHEBION:
PARTION PLANT, NOSWEITHIAU MWYTHAU I'R ARDDEGAU/OEDOLION A BUSNESAU
* Partion Mwythau o £99
* Partion Siocled o £125
* Nosweithiau i Oedolion a Busnesau o £150
I sicrhau dyddiad i'ch parti ffoniwch 01745 814864 neu ebostiwch mark@denbighchocolateshop.com
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN




babŵn, y llewpart a'r llew yn byw. Roedd rhaid i Aneurin aros yn ei gerbyd i dynnu lluniau yma!!
Mae Parc Cenedlaethol Yellowstone yn Wyoming yn America yn le bendigedig i dynnu lluniau stormydd eira a'r beison sy'n cadw'n gynnes wrth ymyl y geyser.
Mae'r Grand Canyon mor eang a Death Valley yn boeth iawn – lle unigryw. Yma, mae siap a lliw y creigiau wedi denu llygad Aneurin a lens y camera.
Roedd lluniau Aneurin yn drawiadol a manwl, y sylwebaeth yn ddiddorol ac addysgiadol a'r gerddoriaeth hudolus yn ychwanegu at y cyflwyniad. Llywyddwyd cyfarfod cofiadwy gan Rod.

## Cymdeithas Hanes Ardal Dinbych

Ar noson oer – Chwefror 26 – cafodd y Gymdeithas eu cyfarfod misol. Y siaradwr y tro hwn oedd Medwyn Jones a'i bwnc oedd hanes Pendref – y Capel Wesleaidd Cyntaf yn y Byd.
'Roedd yn gyfarwydd iawn â'i destun ac fe roddodd adroddiad llawn i'r gwrandawyr, gyda llawer iawn o fanylion. Soniodd lawer am Evan Roberts, gŵr a gychwynodd hanes y Wesleaid yn Ninbych ac un sydd, ym marn Medwyn, yn haeddu mwy o sylw; a sut y prynwyd darn o dir ym 1800 a chael trafferth i adeiladu arno oherwydd y llechwedd i'r cefn. Clywyd bod dros 600 wedi dod yn 1802 i seremoni agor y capel, a ddaeth, ymhen ychydig amser, yn fodel at adeiladu capeli eraill. Yr oedd canmoliaeth fawr i'r festri fel esiampl arbennig o Ysgoldy o gyfnod Fictoria.
Mae'r rhestr o ymddiriedolwyr yn cynnwys llawer iawn o weithwyr - pobl gyffredin, ond 'roedd pobl fel H.M.Stanley ac Evan Pierce hefyd yn mynychu Capel Pendref.
Cafwyd hanes ail-drefnu oddi mewn yn yr wythdegau pan osodwyd system wresogi, a gwnaed cynlluniau ar gyfer y tŷ capel yn 1894. Ar ddiwedd y sgwrs, diolchwyd i Medwyn gan Erfyl Williams ac fe gafwyd cryn gyfathrach â'r aelodau wedyn.

**Ceredig Gwynn.**



Medwyn a Gronwy

## Cymdeithas Flodau Dinbych a'r Cylch



Croesawodd Doris bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd yr arddangoswraig, Denise Hubbard o Middlewich i ni. Thema'r arddangosfa oedd 'Hanesion Trafaelwyr'.
1) Ynys yn y Caribi ble roedd na fforestydd glaw - defnyddiwyd darn hir o froc môr, deiliach gwyrdd, coed coniffer ac eiddew yn y canol gyda mwsog i greu naws llawr y goedwig. Ychwanegwyd, yn effeithiol iawn, dri sbrigyn o degeirian.
2) Kenya oedd y daith nesa' lle gwahoddwyd hi i wylio dawns a berfformiwyd gan wŷr y Masai. Roedd y trefniant yn un tal gyda mwgwd wyneb o flaen y cynhwysydd. Rhoed lliw a symudiad i'r trefniant pan ychwanegwyd dail palmwydd sychion, deiliach, gerberas a rhosod.
3) Priodas yng Nghyprus. Penderfynodd ei merch briodi yno, a hithau, y fam, i osod y blodau. Aphroditi, Duwies y Cariadon fu'r sbardyn i greu gosodiad mewn cynhwysydd lliw hufen gyda liliau melynbinc, rhosod gwynion, gypsoffila a deiliach. Hyfryd iawn!
4) Efrog Newydd fu'r cyrchfan nesa' gyda dau gynhwysydd tal yn cynrychioli adeiladau anferthol y ddinas honno, trefniant a wnaed yn y gwesty yno gyda dail hir, dail Falsia a dim ond blodau gwynion. Trawiadol!
5) Norfolk oedd y man lle'i ganed a defnyddiwyd blodau hyfryd amryliw gyda liliau yn cynrychioli Llynnoedd Norfolk. Fe'u gosodwyd mewn basged gyda chawell grancod a rhwyd yn ychwanegiadau perffaith.
6) Dod adre i' ngardd i. Defnyddiwydd wrn gyda gwyrdd-ddail, liliau hardd, carnasiwns a Lizzaites, i gyd yn wahanol raddau o binc.
Diolchodd Doris Robrts am noson hynod o ddifyr. Bydd y cyfarfod nesa' ar Ebrill 3ydd yn Ysgoldy'r Capel Mawr am 7.30.

J. Margherita Jones







# Atebion Croesair Mawrth 2018

**Ar Draws :** 1. Democrat 5. Carped 9. Darparwr 10. Abades 12. Amaeth 13. Twll-yn-y-wal 14. Adareg 16. Argoeli 19. Cwrtais 21. Malais 23. Darlithwyr 25. Drama 26. Meistr 27. Gwybetwr 28. Gwasgu 29. Blinedig

**I Lawr :** 1. Dadlau 2. Mariandir 3. Craith 4. Acwstig 6. Arbenigol 7. Pydew 8. Disglair 11. Allfa 15. Realistig 17. Eliffantod 18. Academig 20. Sawr 21. Morthwyl 22. Carrog 24. Raita 25. Dibyn

# CROESAIR EBRILL 2018



**AR DRAWS**

1. Rhybuddion i forwyr
5. Pellter o ganol cylch i'r ymyl
9. Cadwyn i wisgo ar arddwrn
10. Llinyn i gau esgidiau
11. Lliw cyfoethog?
12. Y genhedlaeth hynaf
14. Fe'u gwelir ar faes eisteddfod
18. Yn ymwneud â rhai sy'n gwella anifeiliaid
22. Diffyg neu angen
23. Metal ysgafn ond cryf
24. Mis sydd wedi bod eleni
25. Gweithiwr gyda gwifrau
26. Storm
27. Diwedd priodas

**I LAWR**

1. Cwpan
2. Tîn-droi
3. Mewn safle oddi fry
4. Tref prifysgol
6. Bywyd ysgolheigaidd
7. Dyma oedd swydd Osian Roberts
8. Band o gerddorion ee pres
13. Amhersain
15. Tempo cerddorol
16. Tŷ i'r tlodion
17. Neges
19. Mesuriad o'ch corun i'ch sawdl
20. Sianel i gario mŵg
21. Streic newyn

Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar


"Darlledu yn yr 80au ar Radio Havana Cuba" oedd testun Lila Haines pan ddaeth i siarad â ni yn yr Amgueddfa ym mis Chwefror. Bu'n gweithio ar yr ynys fel gohebydd a newyddiadurwraig ar y darllediadau Iaith Saesneg o 1988 tan 1992, cyfnod o newidiadau gwleidyddol mawr ar draws y byd. Roedd chwech gorsaf radio cenedlaethol yng Nghuba ar y pryd, a Radio Havana oedd gorsaf swyddogol y llywodraeth, a darlledai mewn naw iaith. Cafodd Lila gyfle i gyflwyno a golygu'r newyddion ar y radio, mynychu cynadleddau rhyngwladol a chyfarfod â phobl enwog fel Castro ei hun. Soniodd am y 29,000 o blant a gludwyd i Guba i dderbyn gofal ar ôl ffrwydrad Chernobyl a'r parseli bwyd a anfonwyd i Ddwyrain Ewrop ar ôl Cwymp Mur Berlin yn 1989. Yn yr un flwyddyn, cosbwyd a dienyddiwyd rhai o bobl blaenllaw Cuba, gan gynnwys Cadfridog Arnaldo Ochoa, am fod yn gysylltiedig â chartelau cyffuriau. Lila oedd yn cyflwyno'r newyddion yn fyw ar y radio pan dderbyniodd gyhoeddiad o



Dyma lun o Lila, gyda Suna oedd ym Merlin pan syrthiodd y Mur!

Washington, yn cyhoeddi dechreuad Rhyfel Cyntaf y Gwlff. Yn 1991 ymwelodd Nelson Mandela â Chuba ac mae gan Lila lun a dynnodd ohono ar yr achlysur hwnnw.
Ers gadael yr ynys, mae Lila wedi gweithio i'r Cynulliad yng Nghaerdydd ac i Oxfam. Ar hyn o bryd mae hi'n Gadeirydd Masnach Deg dros Gymru, (edrychwch ar *fairtradewales.com*) ac yn gweithio ar ei liwt ei hun.

Yn ystod cyfnod 20/04/18 - 30/06/18 bydd un o'n radios yn cael ei arddangos yn Amgueddfa




Wrecsam fel rhan o Arddangosfa Fforwm Treftadaeth Gogledd-Ddwyrain Cymru, "100 o Wrthrychau". Radio derbyniwr atgynhyrchiol Foulkes ydy o, a wnaethpwyd ac a werthwyd yn Siop Foulkes yn Y Rhyl, tua 1926. Mae ganddo 4 falf ac mae'n cael ei bweru gan fatris. Dyma lun o'r radio ac o'r siop:




Croeso cynnes i bawb i'r darlithiau nesaf yn ein cyfres, a gynhelir yn yr Amgueddfa am 7.00 y.h.:
**Ebrill 20fed**, "Trasiedïau Morwrol yr 'Ocean Monarch' a'r 'Lelia'", gan Tony Griffiths a Keith Mountain.
**Ebrill 27ain**, yn Gymraeg, "Yr Efe - T.H. Parry-Williams a'r Isymwybod", gan Ioan Talfryn.
**Mai 18fed**, "Mwyngloddio yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru", gan Alan Jones.
**Mehefin 15fed**, "Darlledu yng Nghymru", gan Ifor ap Glyn.
**Mehefin 22ain**, yn Gymraeg, "Effeithiolrwydd a Diogelwch Meddyginiaethau", gan Dyfrig Hughes.

Bydd ein Bore Coffi a Stondin Blanhigion eleni ar **Fehefin 2ail** yn Eirianfa, 10.00-12.00, pan fyddwn yn cydweithio â Mind Dyffryn Clwyd ac Amgueddfa Dinbych.

Tybed faint ohonoch glywodd Geraint Lloyd, Radio Cymru, yn sgwrsio am **Gwefr heb Wifrau** efo Ioan Talfryn am 11.30 nos Lun, 19/02/18? Mae'r clip yn dal ar y wefan. Mae'n amlwg bod pobl y cyfryngau yn pori trwy'r papurau bro yn rheolaidd. Diolch i'r **Bigwn** am yr hysbys!

Morgeisi
CARTREF
Mortgages
**Cyngor Morgais Di-Ffi**
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio
Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol
Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk



MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

# Holi a Stilio yng nghwmni Jenny Barlow, Clerc Cyngor y Dref



**1. Cyflwyniad byr**
Cefais fy ngeni ym Machynlleth a fy nwyn i fyny yn Rhuthun. Gweithiais yn Banc Barclays am 17 mlynedd, yna'n Swyddog Hyfforddi yn ardal Gwynedd ac Ynys Môn ac yn Oruchwyliwr Adran Gwasanaeth Cwsmeriaid Gwynedd ac Ynys Môn.
Gwaith rhan amser pan oedd y plant yn fach fel Swyddog Adnoddau Dynol i Safeway Dinbych a hefyd Clerc Cymuned Henllan, yna ymuno gyda Chyngor Sir Ddinbych fel Swyddog Cyllid ac yna Goruchwyliwr Gwasanaeth Cwsmeriaid y Cyngor cyn dechrau fel Clerc Cyngor Tref Dinbych.
Yn briod â Wayne am 30 mlynedd gyda 2 o blant, Gethin (20) ac yng ngholeg Lerpwl a Dyfan (17) sy'n astudio lefel 'A' yn Ysgol Uwchradd Dinbych.
Byw yn Henllan am dros ugain mlynedd.

**2. Beth ydy eich diddordebau chi?**
Darllen a mynd i ffwrdd yn y garafan.

**3. Beth ydy natur gwaith Clerc y Cyngor?**
Amrywiol iawn.
Llawer iawn o agendas, cofnodion, cyfieithu, digwyddiadau ac edrych ar ôl y Maer ac wrth gwrs, cwrdd â thrigolion Dinbych.

**4. Be sy'n eich plesio am y dref?**
Falch ofnadwy fod gymaint o wirfoddolwyr yn y dref i gadw grwpiau a sefydliadau i fynd – pwysig iawn.

**5. Be sy'n eich gwylltio chi?**
Pobl yn hyll ar y ffôn, angen y Cyngor Sir ond wedi galw Cyngor y Dref a methu deall nad wyf yn gallu trosglwyddo'r alwad!

**6. Pwy ydy'r person mwya' difyr/diddorol rydych wedi bod yn ei gwmni/chwmni yn eich gwaith?**
Mae yna lawer iawn…….
Byddwn yn dweud mai'r darlithwyr sy'n cymryd rhan yn narlithoedd Treftadaeth y Cyngor Tref bob blwyddyn. Mae eu gwybodaeth am eu pwnc dewisol yn wych ac mae eu hangerdd am eu pwnc yn anhygoel. Rwy'n dysgu llawer ganddynt.
Hefyd arweinwyr taith gwirfoddol Dinbych - i gyd yn wirioneddol wych. Rwyf wedi bod ar sawl un o'r teithiau ac wedi dysgu llawer am ein tref farchnad hardd.

**7. Pa dri lle sy'n bwysig i chi yn Ninbych a'r ardal?**
Fy nghartref yn Henllan.
Neuadd y Dref, Dinbych.
Hen Ysgol Frongoch, cartref i Amgueddfa Dinbych a'r Grŵp Archif.

**8. Be sy'n codi ofn arnoch chi?**
Does dim ofn arnaf. Nid wyf yn un pryderus, dim pwynt pryderu!

**9. Be sy'n gwneud i chi chwerthin yn y gwaith?**
Cael hwyl gyda'r cyhoedd.

**10. Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i Carwyn Jones i geisio gwella pethau?**
Ni allaf ateb y cwestiwn hwn. Nid oes gennyf farn wleidyddol yn fy swydd fel Clerc y Dref.

**11. Pa lyfr sydd wrth erchwyn y gwely yn barod i'w ddarllen ar hyn o bryd?**
Rwyf yn darllen tua 2 lyfr bob wythnos. Ar hyn o bryd rwyf yn darllen The Hit – Rosie Gilmour a'r llyfr cyn hwn oedd Keeping My Sister's Secrets – Beezy Marsh. Mae gennyf gannoedd o lyfrau ar y Kindle i fy nghadw'n ddistaw!

**12. Pwy fyddech chi'n ei wahodd i'ch pryd bwyd delfrydol …a beth fyddai'r wledd?**
Ffrindiau agos.
Hwyaden aromatic gyda chrempogau a stêc, llysiau a saws pupur. Nid wyf yn hoffi pwdin!

**13. Pwy ydych chi'n edmygu?**
Un o fy ffrindiau pennaf sydd â llawer o gyflyrau meddygol ond nid yw'n cwyno. Mae'n codi cywilydd arnaf gan ei bod mor gryf. Peth ofnadwy ydi byw gyda phoen. Mae yna o hyd rhywun yn waeth na ni!

**14. Beth yw eich gwyliau gorau erioed?**
Mae pob gwyliau i mi yn bwysig ac maent i gyd yn wahanol.

**15. Rhannwch gyfrinach â ni.**
Roedd tad Elton John yn byw 4 tŷ i lawr y stryd i mi pan oeddwn yn tyfu i fyny. Roeddwn yn cerdded i'r ysgol gydag un o'i hanner brodyr.

SIOP CLWYD
33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431

Llyfrau,Cardiau
Casetiau
Crynoddisgiau
a Chrefftau

## CWYN ARALL AM SAFONAU

Gan ategu'r hyn a ddywedodd ysgrifennwr y mis diwethaf – pam yn y byd mawr y mae'n rhaid i ni ddioddef cynnwys y papur newyddion Saesneg dyddiol yr ydym mor gyfarwydd ag ef? Ni chafodd y papur ei enwi, ond credaf fod gan bawb syniad go dda prun yw'r papur dan sylw!

Mae arnom angen newyddion am ardal go eang yma yng Ngogledd Cymru – er bod rhifyn gwahanol yn darparu newyddion o Wynedd, ond beth sy'n cael ei gynnig i ni, yn ddyddiol, heblaw am y wybodaeth hollbwysig am bwy sydd wedi ein gadael ac ychydig bytiau o hanes rhyngwladol ym mherfeddion y papur, yw hanes drwgweithredu, lladrata, ymosodiadau, rheibio a llofruddio! Dyma'r newyddion rydym yn ei dderbyn, fel lloi, ac rydym yn dal i brynu'r papur rhag ofn colli rhywbeth gwell!

Fe ddylem wybod erbyn hyn. Dylem gwyno a chwyno eto, efallai lawer gwaith. Mae'n siwr gen i fod rhai pethau da'n digwydd yn ein hardal ac y dymunem glywed amdanynt ond mae'r hanesion a lluniau mawr y pechaduriaid hyn yn ofnadwy, yn ddychrynllyd a diflas.

**Llond - boliwr**

# Gwobr Fawr i Gethin





Y Seremoni Wobrwyo

Mae cynllunydd ifanc, dawnus o Ogledd Cymru sy'n cael llwyddiant mawr yn y byd ffasiwn moethus, newydd ennill gwobr fawr.

Mae Gethin Ceidiog Hughes, 26 oed, o Ddinbych wedi ychwanegu at y ganmoliaeth eang y mae eisoes wedi'i gael trwy gipio Gwobr Goffa nodedig Eirian Llwyd, gwobr sy'n anrhydeddu artistiaid sydd wedi dangos ymroddiad eithriadol a dawn greadigol arbennig yn eu dewis faes o wneud printiau.

Ar yr un pryd, mae ei ystod newydd trawiadol o sgarffiau sidan wedi'u gwehyddu, yn gwerthu'n dda mewn *boutiques* a siopau safon uchel ers iddynt gael eu lansio y llynedd.

Roedd Eirian Llwyd, gwraig cyn arweinydd Plaid Cymru a Dirprwy Brif Weinidog Cymru, Ieuan Wyn Jones, yn wneuthurwr printiau nodedig ei hun a hi wnaeth sefydlu Y Lle Print Gwreiddiol ar Ynys Môn.

Yn dilyn ei marwolaeth yn 63 oed yn 2014, sefydlodd ei theulu a Chyngor Celfyddydau Cymru, Ymddiriedolaeth Goffa yn ei henw er mwyn darparu gwobrau ariannol i artistiaid newydd ac egin artistiaid yng Nghymru sy'n arbenigo yn y cyfrwng gwneud printiau.

Dim ond trydydd enillydd y wobr flynyddol yw Gethin, gwobr sydd â bonws ariannol o hyd at £2,500 er mwyn galluogi artistiaid i ddatblygu a pharhau gyda'u harfer o wneud printiau trwy brynu offer newydd neu weithio ar brosiectau newydd.

Daw'r enwebiadau ar gyfer y wobr gan guraduron orielau neu reolwyr canolfannau argraffu ledled Cymru a chaiff ei beirniadu gan banel o arbenigwyr gan gynnwys Rheolwr Portffolio ar gyfer Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol Cyngor Celfyddydau Cymru, Swyddog Datblygu ac Ymgynghorydd Cenedlaethol sy'n arbenigo yn y celfyddydau gweledol.

Dywedodd Gethin, a gwblhaodd ei MA yn Ysgol Celf a Dylunio enwog Caerdydd ac sydd wedi ennill enw rhagorol iddo'i hun fel ffotograffydd a gwneuthurwr printiau, y byddai'r arian yn ei helpu i ariannu datblygiadau a phrosiectau newydd.

Mae ei ddewis o sgarffiau i ferched sydd mor boblogaidd gyda phrynwyr ffasiynol wedi'u seilio ar batrymau geometrig a ysbrydolwyd gan waith yr arlunydd o Rwsia, Kazimir Malevich.

Mae'r chwe chynllun, sy'n cael eu marchnata gan Gethin o dan frand Wilding, sef enw canol ei fam, yn deillio o lun eiconig Malevich ym 1915, sef Sgwâr Du ac amrywiadau ar yr un thema o sgwariau du a gwyn yw'r dyluniadau. Trodd at felin wehyddu sidan draddodiadol yn Halifax, Gorllewin Swydd Efrog, er mwyn cynhyrchu ac argraffu'r sgarffiau yn barod ar gyfer y siopau gan ddefnyddio'r broses wehyddu draddodiadol.

Dywedodd Gethin: "Mae pethau wedi bod yn mynd yn dda iawn ac rydw i wedi cael tipyn o ymateb cadarnhaol hyd yma. Mae'r sgarffiau ar gael mewn *boutiques* a siopau eraill o safon ar draws Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr. Rydw i wedi bod mor brysur gyda'r prosiect sgarffiau nes i mi bron ag anghofio bod Philip Hughes, cyfarwyddwr Canolfan Grefft Rhuthun, wedi rhoi fy enw ymlaen ar gyfer Gwobr Goffa Eirian Llwyd.

Dyma'r wobr gyntaf i mi gael fy enwebu ar ei chyfer ac mae ennill yn wych. Roedd y peth yn hollol annisgwyl gan fy mod i'n gwybod bod cymaint o artistiaid dawnus eraill i ddewis o'u plith."

Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482



BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yn ystod digwyddiad Sgyrsiau Creadigol a gynhaliwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn Theatr Volcano yn Abertawe.

Ychwanegodd Gethin: “Rwy’n falch iawn fy mod wedi ennill gwobr mor uchel ei pharch, yn enwedig gan mai fi yw un o’r rhai cyntaf i’w derbyn, a bydd yr arian y byddaf yn ei gael yn hwb mawr iawn i mi.

Bydd yn fy nghaniatáu i symud fy ngyrfa i’r lefel nesaf. Fel artist, mae dod o hyd i arian yn anodd bob amser ond bydd hwn yn rhoi dechreuad gwirioneddol dda i mi ac yn fy ngwthio i’r cyfeiriad cywir.

Bydd yn fy ngalluogi i wneud gwahanol fathau o waith ac i feddwl am gynlluniau a phrosiectau newydd. Heb os nac oni bai, felly, achos o edrych ymlaen yw hyn i fi.

Teimlaf anrhydedd fawr fod y wobr er cof am Eirian Llwyd a oedd yn aruthrol o ddawnus am greu printiau ac a wnaeth gymaint i hyrwyddo’r cyfrwng, yn ogystal â darparu cyfleoedd i artistiaid yng Nghymru.”

Cyn iddo feddwl am y sgarffiau, bu Gethin yn ymwneud â phrosiect artistig nodedig arall yn 2016 pan gynhyrchodd gyfres o sgrîn-brofion i ddweud y stori y tu ôl i draciau albwm newydd gan y band Dr Meaker o Fryste, a gafodd eu henwi’n ddiweddar fel act dawns byw gorau’r Deyrnas Unedig.

Ym myd ffotograffiaeth, mae Gethin wedi gweithio gyda phrif hyrwyddwyr a gwyliau cerddorol mawr Caerdydd, a roddodd gyfle iddo dynnu ffotograffau llu o DJs rhyngwladol a phobl amlwg ym myd cerddoriaeth, gan gynnwys y cynhyrchydd bas a drwm enwog, Goldie.

Mae engreifftiau o waith cyffrous Gethin wedi cael eu cyhoeddi yn Complex Magazine, Drum & Bass Arena, Wales Online, BBC Cymru a hefyd mewn papurau newydd rhanbarthol.

Yn 2015, cynhaliodd ei arddangosfa ffotograffeg gyntaf lle dangosodd ei waith fel rhan o’r Ŵyl Diffusion ryngwladol.

Arweiniodd y llwyddiant hynny at brosiectau arbennig eraill, gan gynnwys gweithio yng Ngŵyl Sunfall yn Llundain a chydweithredu gyda Dr Meaker.

Yn fwy diweddar, mae Gethin wedi hyfforddi gydag artistiaid ac argraffwyr fel rhan o’r cynllun Ysgoloriaeth Argraffu ‘Profi’ yn y Ganolfan Argraffu Ranbarthol sy’n rhan o Goleg Cambria yn Wrecsam.

Enwebwyd Gethin ar gyfer Gwobr Goffa Eirian Llwyd gan Philip Hughes, sy’n rhedeg Canolfan Grefft Rhuthun.

Dywedodd: “Mae Gethin yn artist-gynllunydd hynod ddiddorol ac arloesol gyda dawn wahanol ac rydw i wrth fy modd ei fod wedi ennill y wobr hon.

Mae wedi cyflawni cymaint ers iddo raddio ac wedi meithrin cyfoeth o arbenigedd perthnasol i geisio gwireddu ei uchelgais.

Mae wedi mynd ar drywydd yr holl gyfleoedd a gynigiwyd iddo gan gynnwys datblygu gwaith comisiwn ochr yn ochr â’i weithdy ei hun. Mae bellach mewn man pwysig yn ei yrfa gynnar ac yn dechrau sefydlu ei weithdy yng Nghymru.

Mae ei waith diweddar yn daith o archwilio, gan ddefnyddio sgrîn sidan i ddechrau, ond mae bellach wedi symud ymlaen i ysgythru.

Rwy’n credu bod ganddo ddawn sylweddol. Mae ei brintiau’n gyforiog o ddefnydd bywiog a llawn o liw ynghyd â marciau haniaethol hanfodol.”

# Pwy ydi hwn?



1. Pwy ydi hwn?
2. Beth mae o’n neud?
3. Ble mae o?
4. Be ddigwyddodd nesaf?

Atebion i’r Bigwn ac mae na wobr hael!!




"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"

# Cofio 'Swyn'

**Cymru 1969.** "Pwy fyddai wedi meddwl bum mlynedd yn ôl y byddai yna'r holl frwdfrydedd canu ysgafn yma yng Nhymru? Pwy dybiai y byddai yna siart recordiau Cymraeg, a chyngherddau "pop" a gwerthiant enfawr i recordiau? Newid ddaeth o rod i rod? Wel do, diolch byth! Un peth i sylwi arno ynglŷn â'r brwdfrydedd newydd yma yw'r nifer syfrdanol o grwpiau newydd sy'n codi bob dydd a'r rheiny gan amla yn grwpiau merched" Cylchgrawn Hamdden Ebrill 1969.

Mae rhai o'r merched hyn o'r 1960 a'r 70au yn canu ar gryno-ddisg newydd,'Rhannu'r Hen Gyfrinachau' ac mae'r grŵp pop lleol o Ddinbych **'Swyn'** wedi cyfrannu at y gryno ddisg. Aelodau'r grŵp oedd Nerys Ann Roberts (Jones), Angharad Rhys (Owen), Marian Hughes (Rawson), Linda Hughes (Holmes), Gillian Jones (Holmes), Wendy Owens (Williams) a Janet Evans (Roberts).

Aeth Nerys Ann Roberts aelod o'r grŵp pop"Swyn" i'r Galeri, Caernarfon, yn ddiweddar i ddathlu "Rhannu'r Hen Gyfrinachau."

Dyma'r hanes ganddi:

Dwi'n meddwl mai'r prif beth a'm tarodd i yn y noson yn y Galeri oedd sylweddoli cymaint ohonom oedd yn gwneud yr un peth. Yr oeddem yn cadw nosweithiau efo sgetsys a phob math o amrywiaeth. Yr oeddem yn ymwybodol o'r grwp "Sidan" gan eu bod yn yr un ysgol ond nid oedd cyfryngau cymdeithasol ar y pryd ac felly roedd yn braf cyfarfod yn y Galeri â nifer o'r unigolion a'r grwpiau eraill oedd yn canu yr un pryd â ni. Yr oedd yn braf clywed eu hanes erbyn hyn hefyd.



Miss Asbri, 1973 Nerys Ann Roberts (Jones)

Y mae Gwenann Craig o Ddyffryn Ardudwy yn nyrsio, a gyda pharti canu yn Ysbyty Gwynedd. Yr oedd Janet Humphreys yn adrodd ei hanes fel y dechreuodd canu'r gitar yn ferch dair ar ddeg oed. Yr oedd aelodau o Tannau Tawela yno ac Evelyn Bridger a Doreen Davies ac mi ganodd Doreen Lewis erbyn hyn, y gân gyntaf iddi ei chyfansoddi sef "Y Storm." Yr oedd yn braf cyfarfod âc Eleri Llwyd ac fe ganodd hi "Llongau Caernarfon." Bu i mi hefyd gyfarfod â Mari Griffith. Bu hi'n ymddangos ar raglenni fel Hob y Deri Dando, Stiwdio B, Ryan a Ronnie a Telewele.

Yr un mwyaf enwog mae'n siwr ydy Helen Wyn a ddaeth yn ddiweddarach yn Tammy Jones. Sôn am gymeriad! Fe gawsom lawer o hwyl yn gwrando ar ei hanes hi pan oedd ar Opportunity Knocks ac yn y blaen. Yr oedd aelodau o'r "Tlysau" yno hefyd.

Beti George oedd yn holi yn ei ffordd unigryw hi. Os ydych chi eisiau prynu'r gryno-ddisg, ewch i Siop Clwyd a gofynnwch am "Rhannu'r Hen Gyfrinachau."



Y 'Swyn' gwreiddiol

O.N. Mae cân gan "Swyn" ar y gryno- ddisg sef "Heulwen Mai" gyda'r gerddoriaeth gan Gillian Holmes a'r geiriau gan Gwilym R. Jones. Braf oedd cael neges gan Linda, chwaer Gillian, o Ynys Vancouver yn ystod y noson yn y Galeri.

**Atgofion Wendy Owens (Williams gynt) un o aelodau 'Swyn'**

Dwi'n cofio mynd i Gaer i brynu dillad - ffrogiau pinafore "cheque". Dwy ohonom mewn blowsus glas, dwy mewn rhai lliw oren a thair ohonom mewn rhai melyn. Roeddwn i'n meddwl ein bod ni'n edrych yn smart! Cofio mam yn mynd â fi i brynu sgidia, rhai platform oedd y ffasiwn yn y saithdegau. Mi roeddwn wedi gwirioni i gael rhai yr un lliw yn union â'r pinafore. Dwi'n siwr bod y pinafore a'r sgidiau mewn cwpwrdd 'retro' rhywun erbyn hyn!

**Wendy Owens (Williams)**

**Atgofion Linda a Gillian (Holmes gynt)**

Mae dyddiau 'Swyn' yn rhai arbennig iawn i ni ein dwy. 'Roeddem wedi arfer canu a chystadlu yn yr Ysgol Gymraeg yn Y Capel Mawr, ac yn Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych ond ar ôl i ni symud i Ysgol Glan Clwyd yn 1969/70 y ffurfiwyd ein grŵp. Arferem ddod at ein gilydd yn y Garth, ein cartref yn Ninbych, ac yno, yn yr ystafell ffrynt, 'roeddem yn dysgu caneuon newydd ac ymarfer tuag at ein cyngerdd nesaf. Ein mam, Aelwen Holmes oedd yn ein hyfforddi a chadw trefn arnom! 'Roedd 'na bedair ohonom yn medru chwarae'r gitar, ac o dro i'w gilydd, mi fuasai Gill neu finnau yn cyfansoddi cân wreiddiol ar gyfer y grŵp. Ar wahan i ganu caneuon ysgafn, 'roeddem yn mwynhau canu cerdd dant ac alawon gwerin. Nerys Ann oedd ein prif leisydd a hithau hefyd fuasai'n cyflwyno ein caneuon yn y cyngherddau. Grŵp yn agos iawn at ein cynefin oeddem ni, ac yn ystod blynyddoedd cyntaf y '70au, roedd 'na fyrdd o nosweithiau llawen a chymdeithasol yn cael eu cynnal yn aml iawn ar benwythnosau. Cawsom lot iawn o hwyl yn teithio i gymeryd rhan mewn festri capeli a neuaddau pentrefi a hynny am bres teithio a phaned a lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y noson. Dipyn o newid i ni felly oedd mynd i Gastell Gwrych i ganu mewn Gwledd Ganoloesol am £10 y noson !

Doedd 'na run ohonom yn medru dreifio adeg hynny a mawr oedd ein diolch i rieni aelodau'r grwp, yn ogystal â ffrindiau, am fynd â ni o gwmpas, i ganu. Yn ogystal â chymeryd rhan mewn gweithgareddau, 'roedden ni'n dal i gystadlu mewn eisteddfodau. Mi gawsom y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth cân ysgafn yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Rhuthun yn 1973, ac ennill eto yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd yn Y Rhyl yn 1975. Cyfansoddwyd geiriau'r ddwy gân gan Y Prifardd Gwilym R. Jones a'r gerddoriaeth gan fy chwaer, Gill.

Mi gawsom ambell i daith lawr i Gaerdydd i recordio ar gyfer rhaglenni teledu'r cyfnod: Telewele a Llusern. 'Roedd hynny yn adeg cyffrous iawn ac yn golygu aros noson yn y brifddinas. Yn cofio y teimlad arbennig o ganu mewn stiwdio am y tro cyntaf a phob un ohonom yn cael ein coluro er mwyn edrych ein gorau cyn y recordio.

Taith i Aberystwyth yn gynnar yn 1975 i gystadlu am Seren Asbri oedd yr uchafbwynt. Nerys Ann yn ennill Seren Asbri a gweddill aelodau'r grŵp yn gefn iddi. Y wobr oedd cael recordio EP efo cwmni recordiau Cambrian. 'Roedd honno'n noson fythgofiadwy a hapus iawn!

Erbyn Haf 1976, 'roedd aelodau ein grŵp wedi gadael yr ysgol am y colegau. Er bod 'na ychydig dros bedwar deg o flynyddoedd ers hynny, a'r milltiroedd yn bell iawn rhwng rhai ohonom, mae'n braf medru dweud ein bod ni'n dal mewn cysylltiad agos.

Dipyn o syrpreis oedd cael gwybod y llynedd fod un o'n caneuon wedi cael ei dewis ar gyfer CD newydd gan Sain -

'Rhannu'r Hen Gyfrinachau.' Mor falch fod 'Heulwen Mai ' yn un o 20 o ganeuon gan ferched y degawd 1965 - 1975. Anrhydedd yn wir!

**Linda Hughes (Ynys Vancouver)**
**Gillian Jones (Dinbych)**

**Atgofion 'Swyn' gan Angharad**

Pan ddechreuais yn Ysgol Twm o'r Nant yn Ebrill 1968 y gwnes i gyfarfod Mrs Aelwen Holmes gyntaf. Fe roddodd melodica i mi ei chwarae yn y band oedd yn cyfeilio i'r dawnsio gwerin a ches fynd i Steddfod yr Urdd am y tro cyntaf yn sgîl hynny. Erbyn i mi orffen yn yr ysgol roeddwn wedi cael gwersi ffidil, recorder, gitâr a thelyn ac roeddwn yn canu'r rhannau alto yn y partïon canu. Pan aeth Mrs Holmes ati wedyn i gasglu criw ohonom ynghyd i fynd rownd i gadw ambell i Noson Lawen ac i gystadlu mewn eisteddfodau lleol ces chwarae gitâr yn y grŵp a bu'n rhaid i mi ddysgu mwy na thri cord!!

Yna mynd o steddfod i steddfod i ddechrau ac wedyn o gyngerdd i gyngerdd. Cawsom deithio Cymru benbaladr a draw i ambell gymdeithas Gymraeg yn Lloegr ac i Iwerddon. Ar y dechrau ein rhieni yn eu tro oedd yn ein gyrru yma a thraw. Yna y cariadon oedd y gyrrwyr tacsi. Un 'gig' cyson oedd gennym oedd canu yng Nghastell Gwrych, Abergele mewn gwledd ganoloesol a fy ngwaith i oedd cyflwyno'r caneuon. Mi fyddai yna ychydig o heclo ar adegau os oedd rhai o'r gynulleidfa wedi cael dipyn o fedd cyn i ni berfformio. Felly canu tair neu bedair cân, cymryd y pres a gadael yn go handi oedd y drefn. Anodd credu bod cymaint o fynd wedi bod ar yr hen le wrth weld yr olwg sydd arno heddiw.

Mae ein dyled ni'n fawr i Mrs Holmes am ein cymryd ni dan ei hadain.

**Angharad Rhys (Owen)**

**Atgofion o ganu gyda 'Swyn.'**

Cerddoriaeth oedd fy mhrif ddiddordeb tra roeddwn yn tyfu i fyny – canu'n unigol, canu mewn partion a chorau a chwarae'r piano. Pan oeddwn yn mynd o gwmpas i ganu gyda'r grŵp, roeddwn yn genfigenus iawn o Angharad, Linda a Gillian yn chwarae eu gitârs, ewwwwwww roeddwn i eisiau dysgu sut i chwarae gitâr! Felly, cael gitâr ar fy mhenblwydd yn 14 oed a gwylio'r dair yn yr ymarferion ac adre wedyn i ymarfer a dysgu sut i'w chwarae. Cefais ymuno fel gitarydd nes ymlaen ac roeddwn wrth fy modd.

Cawsom lawer iawn o hwyl yn teithio gyda'r grŵp, llawer o gwmpas y wlad a thrip i'r Iwerddon. Yr uchafbwynt oedd cael creu record (ew roeddwn yn meddwl ein bod yn sêr!!).

Roedd Mrs. Holmes yn ein dysgu i ganu llawer o wahanol ganeuon – emynau, cerdd dant, caneuon gwerin a chaneuon pop. Roedd Mr. Holmes o hyd yn gwneud yn siwr ein bod yn cyrraedd adref yn ddiogel o'r teithio. Roeddent yn gwpwl arbennig iawn.

Mwynhau pob eiliad o fod yn perthyn i Swyn. Profiad gwych neith aros yn y cof am byth.

**Janet Lloyd Evans (Roberts)**

# Ken Dodd a Robat



Bu farw'r digrifwr adnabyddus Ken Dodd yn ddiweddar ac mae Robat Griffiths yn ei gofio fel un a fu yn yr ysgol yr un amser ag ef ym Mhenmachno. Dyma fwy o'r hanes gan Robat:-

Amser yr Ail Ryfel Byd oedd hi pan ddaeth llawer iawn o blant o Lerpwl i Benmachno i aros yn ddiogel fel ifaciwis ac roedd Ken Dodd yn un ohonyn nhw. Mae gennyf gôf am Ken Dodd yn yr ysgol a'r pryd hynny roedd yn ddigon gwirion ac nid rhyfedd iddo ddod yn un o'r comedïwyr gorau. Roedd bob dydd yn gwneud pethau gwirion ac yn ein cael i chwerthin o hyd am ei ben.

Mi es i Blackpool ar fy ngwyliau rywbedair blynedd yn ôl ac euthum i weld Ken yn perfformio ac er sioc i mi, fe waeddodd o'r llwyfan,"I'm glad Robert from Penmachno is sitting in the audience". Cefais andros o sioc pan glywais hyn a deall wedyn mai Medwen a Bedwyr oedd wedi bod i'w weld o ar ddechrau'r sioe.

Rwy'n diolch am gael ei adnabod a meddwl fy mod wedi eistedd yn yr un dosbarth ag ef drwy'r Ail Ryfel Byd.

**(Y Bigwn, Rhag. 2002)**



Jane, Ken a Robart



Canu yn y Rialto yn Lerpwl yn 1954



Llun proffesiynol cynnar o Megan

**Ken Dodd a Megan Forster (Megan Hughes)**

Roedd Megan Forster yn byw yn Erw Salusbury ar ddechrau'r ganrif hon, yn Gymraes ac yn gantores (dan yr enw Megan Hughes) yn y "Neuaddau Cerdd" (Music Halls) am flynyddoedd gan ymddangos yn ei thro efo enwau fel Hetty King, Josef Locke a Donald Peers ac efo Ken Dodd ar ddechrau ei yrfa. Gan ei bod yn byw yn agos at ei gartref, bu'n prynu offer glanhau gan Ken yn ogystal â chanu gydag ef wedyn.

Un a fu'n hyfforddi Mrs. Forster oedd Furness Williams o Rhuthun oedd â stiwdio yn Lerpwl ac a fu'n dirpwyo'r enwog Cariws. Bu Megan Forster yn actio yn ogystal â chanu ac yr oedd mewn cynhyrchiad o 'La Vie Parisienne' oedd yn cynnwys Patricia Routledge ('Mrs. Bucket') yn ei joben gyntaf.

Bu Megan hefyd yn peintio lluniau, yn ysgrifennu ac yn cynhyrchu dramau gan gynnwys rhai yn Neuadd Bentref, Trefnant yn y 70au.

**E.D.J.**
**(Y Bigwn, Rhag. 2002)**

# Tudalen y Plant

Y BIGWN

Pasg Hapus i chi gyd! Beth am liwio'r Ŵy Pasg isod ac yna ei anfon i : Y Bigwn, 12, Lôn Wynne, Dinbych, LL16 5YD cyn Ebrill 19eg, 2018. Bydd gwobr i'r enillydd! Pob lwc!

Mae'r Ŵy yn symbol o fywyd newydd.
Mae Gŵyl Y Pasg yn cael ei ddathlu ar y dydd Sul cyntaf sy'n dilyn y lleuad llawn sy'n digwydd ar neu wedi Mawrth 21ain.
Cyflwynwyd yr Ŵy Pasg siocled cyntaf ym Mhrydain gan gwmni J.S. Fry a'i Feibion yn 1873.



## Chwilair Y Pasg

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ŵ | y | rh | n | y | i | o | ph | a | s |
| i | d | f | ng | h | o | e | n | j | l |
| s | i | o | c | l | e | d | u | i | o |
| l | c | b | o | y | w | g | s | a | p |
| p | e | r | e | t | w | y | u | i | o |
| n | p | a | d | a | s | dd | f | b | g |
| e | h | j | n | l | c | b | n | l | m |
| ng | w | w | e | r | t | y | u | o | i |
| i | y | a | s | d | ff | g | h | d | j |
| n | l | b | l | a | g | u | r | a | o |
| w | ch | b | n | m | w | r | e | u | p |
| c | a | dd | s | f | h | g | j | l | c |

ŵy
oen
siocled
Pasg
cyw
blodau
blagur
cwningen

# Huw ein cartwnydd

Mae gan Huw Vaughan Jones, cartwnydd Y Bigwn o'r cychwyn cyntaf yn 1988, ddawn arbennig 'i gosi, i grafu ac ambell waith i ddychanu mewn gair a llun.' Erbyn hyn, mae Huw wedi cyfrannu 292 o gartwnau i'r Bigwn ac er i un cartŵn fynd ar goll unwaith, rhoddwyd dau yn y rhifyn canlynol i wneud iawn am y blerwch! Rydym wedi dod i nabod Wil, Marged a Mot y ci a Siani'r gath yn y cartwnau!

I ddangos ein gwerthfawrogiad ac i ddathlu'r achlysur, mae Hywel Evans, cysodwr ac argraffydd Y Bigwn am flynyddoedd lawer, wedi cyhoeddi rhifyn arbennig o'r Bigwn,'Cartwnau Huw' yn cynnwys holl gartwnau Huw sydd wedi ymddangos yn Y Bigwn o'r dechrau. Diolch i Hywel.

Byddwn yn lansio'r rhifyn arbennig yn Siop Clwyd, Dydd Sadwrn, Ebrill 14eg. pryd y bydd Huw yn llofnodi copïau. Mi fydd y rhifyn arbennig ar werth am £3 ac mi fydd copïau ar werth gan Stan ac ar gael drwy'r post gan John Geraint.

Gweler cartŵn cyfredol Huw ac un o'i hoff gartŵn o'r gorffennol.

Diolch Huw am dy wasanaeth ar hyd y blynyddoedd. Mae dy gartwnau yn dal i ddwyn gwên i'n hwynebau o hyd.






Un o hoff gartwnau Huw




Y BIGWN

## Cartwnau Huw

Rhifyn arbennig o'r **Bigwn** yn cynnwys gwaith ein cartwnydd Huw Vaughan Jones dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain

Ar werth yn Siop Clwyd ar Ebrill 14eg.

Bydd Huw yn bresennol i arwyddo'ch copi chi.

**Pris- £3 Pris drwy'r post - £4**

Ar gyfer sicrhau copi drwy'r post cysylltwch â:-
John Geraint Jones - jones_john@btinternet.com

# Y Bwystfil o'r Dwyrain



Daeth Mawrth i mewn fel llew gyda'r tymheredd yn disgyn dan y rhewbwynt, gwyntoedd cryfion a lluwchfeydd eira.

Dyma effaith y tywydd ar rai o drigolion y dref:-

Bu **Mr. Meurig Voyle** yn gaeth i'r tŷ am dair wythnos rhag iddo gael damwain. Dywedodd ei fod yn fwy synhwyrol wrth fynd yn hŷn!

Gofid Meurig oedd gweld ffermwyr ar y teledu yn taflu llaeth i lawr y buarth oherwydd nad oedd y tancer wedi gallu cyrraedd y fferm yn y tywydd garw. Cydymdeimlai â'r ffermwyr hynny oedd yn gorfod dod â'u hanifeiliaid, boed yn wartheg neu'n ddefaid, dan do a'r gwely o wellt odanynt yn costio gymaint heb sôn am gost y porthiant. Teimlai Meurig dros yr amaethwyr wrth i'r eira gael ei luwchio i mewn i adeiladau'r fferm. Cyhoeddusrwydd da i'r diwydiant amaethyddol meddai!

Yn **Garej y Fowndri** ni chafodd yr eira fawr o effaith ar **Elfed** er iddo orfod clirio'r buarth a bod un cwsmer wedi gohirio dod â'i gar i mewn i'w drwsio am wythnos. Daeth y fan oedd yn cludo darnau ceir i'r garej ar amser.

Mae **Ffion o Ji-Binc** yn siwr ei bod yn y lleiafrif yn dweud bod y tywydd garw diweddar wedi cael effaith ffafriol ar ei chaffi, h.y. mae'r tywydd oer, yr eira a'r glaw yn tueddu i dynnu pobl i mewn i'r caffi i gael paned ac i flasu'r cynnyrch lleol.

Mae'r awyrgylch yn gynhesach ar dywydd oer gyda mwyafrif y staff yn siarad Cymraeg ynghyd â'r coffi Dwyfor cynnes yn 'donic' gobeithio! Mae Ffion a'r criw yn edrych ymlaen at yr Haf gyda hufen ia lleol yn barod ar eich cyfer!

Penderfynodd **Caryl a Iona**, genod **Y Granar**, aros adref ar ddydd Mawrth y tywydd mawr, gan fod yr eira'n drwm am 5.30yb. Erbyn 9yb roedd y ffyrdd wedi eu clirio ond ar ôl siarad â pherchnogion busnesau eraill, penderfynu peidio agor gan fod yna neb allan yn y dref!

"Pan mae'r tywydd yn oer ac yn bwrw glaw, does dim llawer o bobol o gwmpas rhag ofn iddyn nhw syrthio neu i'r ceir sglefrio i'r gwrych. Mae hynny'n wir amdanon ni hefyd," meddent.

"Ar y dydd Gwener – methu â chael y car allan. Does neb eisiau dod allan ond cael hwyl yn yr eira!" meddai Caryl.

---

### Y môr yn gwaedu

Rhaid i mi gyfadda' nad ydw i'n berson tywydd teg – tydi gwres a fi ddim yn g'neud. Mae'n well gen i dywydd oer, ond mae 'na sawl graddfa i oerni, fel popeth arall, on'd oes? Yn ystod y cyfnod cobleinig o aeafol hwnnw'n niwedd Chwefror, 'roeddan ni'n dau'n treulio 'chydig ddyddia' i lawr yn Nyfnaint mewn lle bach o'r enw Babbacombe – anrheg Nadolig gan y genod, chwara' teg iddyn nhw. Ond, sôn am gamaseru, dim bai ar neb cofiwch, ar wahan i'r blwming tywydd. Roeddan ni'n aros mewn gwesty, yn edrych i lawr yn syth i'r môr, o ben y clogwyn 'ma. Roeddan ni yn nannadd y gwynt, a bois bach mi'r oedd o'n brathu i fêr esgyrn rhywun. Ar 'sbeidia, roedd o'n gobleinig o filan ac yn gwneud dim ond rhyw fath o sgyrnygu – anymunol iawn. I lawr oddi tanom, 'roedd y môr yn berwi ac yn cael ei hyrddio'n donnau anferth yn erbyn y creigia' ac 'roedd y ffrwydro i'w glywed o'r gwesty er bod y ffenestri wedi eu cau. Ond yr hyn aeth â'n gwynt ni oedd lliw y dŵr. Gan mai tywodfaen sydd i'w weld ar hyd yr arfordir yn y partha' yma, a chan ei fod wedi cael ei gorddi mor ddidrugaredd, roedd y môr ei hun fel pe tai'n gwaedu. Dipyn o brofiad.

**Berwyn Roberts**


sir ddinbych denbighshire
Yn gweithio i gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

PyBj



GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

# Ysgol Twm o'r Nant



Eisteddfod Dydd Gŵyl Ddewi
Yn ôl traddodiad Ysgol Twm o'r Nant, fe gynhalion ni Eisteddfod ysgol eto eleni. Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen gyfle i gystadlu mewn cystadleuaeth tynnu llun a chreu brawddeg, ac mi gafodd plant hŷn yr ysgol gyfle i gystadlu mewn cystadleuthau barddoni.
Dylan Glyn Bl. 6 enillodd y gadair eleni. Dyma'i gerdd:-

**Y Gêm**

Waw, gêm newydd Skylanders fy hun!
Faint o gymeriadau? Dau gant ag un?
Defnyddiwch eich dychymyg i greu rhai eich hun
O'r pen i'r gynffon – dewiswch bob un.

Llawrlwytho, llawrwytho, mae'n cymryd rhy hir
Mae'n amser cinio, bron yn ddiwedd y dydd.
O'r diwedd wedi gorffen, mae'r sgrin nôl yn las,
Dwi'n barod i chwarae, i drio fy ngorau glas!

Bang! Bwm! Bomiau'n gwneud sŵn
Dwi'n saethu a paffio y direidion drwg.
O na! Dwi di colli, dwi'n syrthio i'r llawr.
Ond wrth ymyl y sgrin, rwyn teimlo fel cawr.

Black Panther




Dyma fuddugwyr y cystadlaethau barddoni o flwyddyn 3 i 6. Da iawn bob un.

Mae'r Uned dan 11 wedi bod yn brysur yn dysgu am gyfnod y 60au. Rydym wedi bod yn dysgu am hanes Tryweryn ac wedi dysgu ffeithiau diddorol iawn am fobl enwog y cyfnod. I ddathlu diwedd y tymor, cafodd blwyddyn 5 a 6 barti'r 60au! Cawsont gyfle i wisgo dillad y 60au a dawnsio i ganeuon y cyfnod.



**Yr Uned dan 11**
Mae Bl. 5 a 6 wedi mwynhau defnyddio eu sgiliau rhifedd a chyd-weithio arbennig i greu bisgedi Pasg. Roedden nhw'n flasus iawn!!



.



**Uned dan 9**

Daeth Mr Arwel Williams at blant yr Uned dan 9 er mwyn cael gwneud gweithgareddau digidol a datblygu sgiliau'r plant. Bu pawb yn brysur yn codio, creu bas data ac yn defnyddio rhaglenni amrywiol.



Thema'r Uned dan 5 am y tymor yma oedd Hwiangerddi. Penllanw ein gweithgareddau oedd canu 10 hwiangerdd i deulu a ffrindiau yn yr ysgol. Da iawn chi blant!



**Eisteddfod yr Urdd**
Da iawn i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch a Sir yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr i Beatrice Bl. 2 ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth yr Unawd Cerdd Dant. Mi fydd Beatrice yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanfair ym Muallt ym mis Mai.



Bu'r criw yma ar raglen teledu Tref a Tryst yn ddiweddar. Tybed a welsoch chi nhw yng nghanol yr holl selsig a phys slwj! Da iawn Tomos, Mabon, Beca a Martha.





Uned Dan 7
Fel rhan o wythnos Masnach Deg 2018 aeth yr Uned dan 7 am dro i Morrisons yn Ninbych. Cawsont sgwrs gan Gary, y dyn pysgod am bysgod Masnach Deg a pam ei bod yn holl bwysig cefnogi'r pysgotwyr wrth roi pris teg iddynt am eu cynnyrch. Cafodd y plant hwyl yn chwilio am siocled a diodydd gyda logo Masnach Deg arnynt ac ar ddiwedd y daith, braf oedd cael blasu a mwynhau ychydig o ffrwythau o Morrisons! Diolch iddynt am y croeso.


*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

Gorffwysfa, Ffordd Ystrad,
Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com

Plas Tirion, Kinmel Avenue,
Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com

www.rwrobertsandson.co.uk

**J. H. & B. JONES**



**CIGYDD TEULU**

Gwerthu PYSGOD hefyd

* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell

92 Stryd y Dyffryn,
Dinbych
01745 812132

# Yr Institiwt ( Neuadd yr Eglwys/ Y Church Institute)



Y Tanerdy. Milwyr adra o Ryfel y Boer o flaen y tanerdy (dechrau'r 20fed. ganrif)

Adeiladwyd Yr Institiwt neu Neuadd yr Eglwys a leolir ym Mhwll y Grawys yn 1915 er cof am Jeanette Octavia Ward, gwraig y Brigadydd General Thomas Ward o Segrwyd. Roeddent yn aelodau yn Eglwys y Santes Fair ac wedi cyfrannu at gostau adeiladu'r Institiwt ar safle tanerdy Boaz Jones. Oherwydd y drewdod roedd pawb ym Mhwll y Grawys gan gynnwys aelodau Eglwys y Santes Fair gerllaw yn llawenhau!! Yn ystod yr 20fed ganrif, defnyddiwyd yr adeilad mewn gwahanol ffyrdd:-

1. Ysgol Sul yr eglwys
2. Cymdeithasau'r eglwys fel Undeb y Mamau a'r Y.M.C.A.
3. Ysgol Pwll y Grawys - prydau bwyd amser cinio a rhai gwersi e.e. gwersi cerdd
4. Dawnsfeydd modern a gwerin
5. Dramáu – yr eglwys a'r tu allan
6. Ambell i arwerthiant e.e. dodrefn, carpedi
7. Partïon pen-blwydd a brecwast priodasau (cyfleus gyda'r eglwys mor agos)
8. Gyrfaoedd Chwist a drefnwyd gan yr eglwys yn wythnosol.
9. Darlithoedd dan nawdd yr eglwys.



Ar Hydref 15fed. 1937 cynhaliwyd Cinio Croeso i enwogion Dinbych yn Neuadd yr Eglwys.Ymhlith y gwahoddedigion yn eistedd yn y blaen roedd Dr. R. J. Rees-Roberts, Dr. Kate Roberts, Y Barnwr Syr Thomas Artemus Jones, Dr T. Gwynn Jones, Dr. William Edwards, Mr. A.G. Prys-Jones a Mrs. T. Gwynn Jones.



Mawrth 6ed 1916

Felly, roedd yr Institiwt neu Neuadd yr Eglwys yn ganolfan gymdeithasol brysur yn 30au, 40au a 50au'r ganrif ddiwethaf. Roedd bysiau i Bwll y Grawys yn gyfleus i gludo pobl i'r Institiwt gyda gorsaf fysiau'r White Rose ac yna Crosville yn ddiweddarach wedi ei lleoli y tu ôl i hen Ysgol Pwll y Grawys.

Ond gyda'r newid yn arferion trigolion y dref a'r newid mewn cymdeithas, daeth y cwbl i ben.

Ailagorwyd Neuadd yr Eglwys yn ddiweddar dan yr enw 'Beach Body Studio' lle cynhelir dosbarthiadau ffitrwydd, hyfforddiant personol a lle ceir y profiad o saethu ar y llawr isaf.

**(Diolch i Bobi, Clwyd a Dafydd am yr help)**



CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**

- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**

- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA

01745 812835

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

**Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned**

Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

# AR BIGAU'R DRAIN

Ers i mi sgwennu nifer o erthyglau ac adroddiadau i'r Bigwn dros y blynyddoedd, ac er i mi, fel cyfranwyr eraill, dderbyn ambell i alwad ffôn gan y cyfryngau yn eu sgîl os oes rhywbeth penodol wedi tynnu eu sylw, pur anaml fydd unrhyw ymateb gan ein darllenwyr lleol.

Ond fe newidiodd hyn y llynedd. Cawsom ymateb rhyfeddol i gyfres o erthyglau a lluniau am deulu o wylanod oedd wedi bod mor hy ag ymgartrefu ar ein to ni. Stan wthiodd y cwch i'r dŵr gyntaf yn ei erthygl "Cymdogion", ac aeth hyn yn dipyn o opera sebon yn dwyn y teitlau "Câr dy Gymydog" ac "Hedfan y Nyth" yn dilyn hynt a helynt y "Teulu Talog." Roedd sawl un yn holi sut oedd "ein gwylanod" ac yn dweud eu bod yn mwynhau darllen amdanynt a gweld y lluniau.

Yn yr erthygl olaf gofynnais am gyngor gan ein darllenwyr: " ... os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau sut i'w cadw draw, gofynnwn yn garedig i chi sgwennu pwt o erthygl i'r Bigwn nesa!" Yn anffodus, daeth dim byd i law, ond cafwyd digon o awgrymiadau ar lafar, bob un ohonynt yn rhywbeth tebyg i, "Saethwch y diawliaid!" - ond nid "diawliaid" oedd y gair a ddefnyddiwyd gan amlaf. Roeddwn yn hynod ddiolchgar am y sylwadau adeiladol hyn, wrth gwrs, ond fod dwy broblem:

1. Does gen i ddim gwn.
2. Mae hyn yn erbyn y gyfraith!

Felly, ar hyn o bryd, mae Nerys a finnau ar bigau'r drain yn cadw golwg barcud ar ein to bob tro mae'r gwylanod o gwmpas. Wedi'r cwbl, ar ddiwedd mis Ebrill a dechrau mis Mai y llynedd yr adeiladwyd Y NYTH! O bryd i'w gilydd mae un neu ddau yn aros ar ben y to, neu ar ben y simdde, yn edrych o'u cwmpas a chrawcian yn eithaf bygythiol, fel petaent yn ystyried adeiladu nyth o'r newydd, ac yn rhybuddio adar eraill (a phobl!) i gadw draw. Ond does dim arwydd o waith adeiladu **hyd yn hyn**.


Roeddwn yn sgwrsio efo un o golofnwyr rheolaidd Y Bigwn y diwrnod o'r blaen. Mae'n byw mewn rhan arall o'r dref, tua hanner milltir i ffwrdd o Stad Colomendy. Cwyno oedd o fod llawer iawn mwy o wylanod o gwmpas eleni. Efallai felly fod Teulu Talog Ffordd Celyn am symud tŷ a gwneud cartref newydd yn Dalar Wen!

........................................

Trwy gyd-ddigwyddiad hollol, darganfyddais fod Cyngor Sir Ddinbych ar fîn lansio ymgyrch i geisio datrys y broblem o wylanod mewn trefi mewndirol fel Dinbych, a cewch ddarllen am hyn ar y dudalen hon.

***John Davies***

# Y CYNGOR YN GALW AR BOBL I BEIDIO Â BWYDO'R GWYLANOD



Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd Sir Ddinbych yn cynnal ymgyrch i geisio lleihau'r problemau a achoswyd gan wylanod. Mae'r Cyngor yn derbyn cwynion am wylanod yn rheolaidd ac ystyrir y gwylanod hyn yn niwsans mawr yn bennaf o fewn cymunedau arfordirol, ond maent hefyd yn bresennol yn y cymunedau mewndirol.

Mae'r Cyngor bellach yn edrych ar ffyrdd i fynd i'r afael â'r mater hwn a bydd yn canolbwyntio ei ymdrechion ar annog preswylwyr ac ymwelwyr i beidio â bwydo'r gwylanod, yn gweithio gyda darparwyr bwyd i leihau gwastraff bwyd a sicrhau bod biniau gwastraff bwyd yn cael eu gorchuddio yn ddigonol.

Cynhelir yr ymgyrch ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, ar ei wefan, yn y wasg leol a thrwy weithio â chymunedau lleol.

Dywedodd y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Cabinet Arweiniol Tai a'r Amgylchedd: "Rydym yn cydnabod yn llawn bod gwylanod yn rhan o fywyd bob dydd ym mhob cymuned arfordirol. Maent wedi bod yn bresennol ers sawl blwyddyn bellach ac maent yn parhau i ffynnu.
Fodd bynnag, rydym yn derbyn cwynion yn rheolaidd gan breswylwyr ein cymunedau arfordirol, yn ogystal â rhai o'n trefi mewndirol, mewn perthynas â'r peryglon a achosir gan wylanod, yn enwedig pan maent yn cael eu denu at fwyd.

Mae'r opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor yn gyfyngedig, gan eu bod yn rhywogaeth a warchodir. Rydym wedi rhoi cynnig ar dechnegau i'w dychryn yn debyg iawn i'r balwnau 'Angry Birds' a'r netin/bynting sydd wedi cael eu darparu i rai ardaloedd ac sydd wedi llwyddo i raddau.

Yr hyn rydym ei angen yw cefnogaeth y cyhoedd. Drwy beidio â bwydo gwylanod a sicrhau bod gwastraff bwyd wedi'i orchuddio, gall hyn leihau'r cyfleoedd i wylanod blymio ar ganol ein trefi."

***Yr adroddiad a'r llun drwy ganiatâd caredig Cyngor Sir Ddinbych***

# Ysgol Glan Clwyd

## Agoriad Swyddogol yr adeilad newydd.



Mae carreg filltir arbennig wedi'i chyrraedd yn hanes Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy wrth i adeilad newydd sbon yr ysgol gael ei agor yn swyddogol gan y Prif Weinidog, Carwyn Jones.

Ymwelodd y Prif Weinidog â'r safle ar ddydd Iau, Mawrth 15fed i weld canlyniadau'r prosiect gwerth £16.7 miliwn a ariannwyd ar y cyd gan Gyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Agorwyd y cymal cyntaf, sef adeilad newydd sbon i ddisgyblion ym mis Ionawr 2017 ac fe gwblhawyd y gwaith i ailwampio hen adeiladau'r ysgol ar ddiwedd 2017.

Dywedodd y Prif Weinidog, Carwyn Jones AC: "Mae'n braf cael dod i Ysgol Glan Clwyd i agor y cyfleusterau newydd yma yn swyddogol. Bydd yr adnoddau newydd ardderchog hyn yn gwneud gwahaniaeth go iawn i staff a disgyblion. Rwy'n falch o weld yr effaith bositif y mae ein Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn ei chael ar gymunedau ledled Cymru ac mae'n dangos pa mor bwysig yw buddsoddi yn ein seilwaith addysg. Wrth gwrs bydd hyn yn parhau ac mae £2.3 biliwn eisoes wedi'i gyhoeddi ar gyfer cam nesaf y rhaglen. Dymunaf bob llwyddiant i ddisgyblion a staff Ysgol Glan Clwyd yn eu cyfleusterau rhagorol newydd."

Dywedodd y Pennaeth, Bethan Cartwright: "Mae hwn yn achlysur mawreddog i ni yma yn Ysgol Glan Clwyd ac rydym wrth ein boddau â'r canlyniadau. Mae'r estyniad newydd wedi darparu mwy o le addysgu yr oedd gwir ei angen ac mae yna ymdeimlad modern yn ein hamgylchedd dysgu newydd. Mae wedi bod yn wych gweld y datblygiad hwn yn tyfu o sylfeini i mewn i'r cyfleuster gwych hwn a fydd yn sicr yn cyfoethogi profiadau ein dysgwyr. Mae ymateb y disgyblion wedi bod yn anhygoel."



**Llongyfarchiadau mawr** i'r ddwy o fl13 sydd wedi derbyn cynigion gan brifysgol Caergrawnt - Gwen Williams (Milfeddygaeth) ac Alys Hall (Saesneg). Tipyn o gamp yn wir!!

Enwebwyd Miss Alaw Jones gan ddau ddisgybl o Ysgol Glan Clwyd am y wobr "athrawes yr wythnos" gyda Sound Radio Wales. Daeth Alex Hudson o Sound Radio Wales i'r ysgol i roi syrpreis i Miss Jones. Cyflwynwyd tystysgrif iddi gan Alexa Taylor 7E a Maddison Taylor 9Y. Cafodd y digwyddiad ei ddarlledu ar y radio am 3yp dydd Gwener (02.02.18) ac yn ystod yr wythnos ganlynol.


**Gwefan newydd Ysgol Glan Clwyd.** Lansiwyd ein gwefan newydd sbon ar dydd Gwener olaf y tymor ym Mis Chwefror. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth amrywiol am fywyd ein hysgol – o galendrau a phrosbectws i'r newyddion diweddaraf. Ewch i weld ar www.ysgolglanclwyd.co.uk

**Disgo Sant Ffolant** Nos Iau 8fed o Chwefror, cynhaliwyd disgo Sant Ffolant yn Ysgol Glan Clwyd ar gyfer disgyblion Ysgol Pengwern. Diolch i ddisgyblion Blwyddyn 12ed a fuodd yn hynod brysur yn trefnu'r noson. Aeth 4 cynrychiolydd ar ran 6ed Ysgol Glan Clwyd sef Iwan, Ben, Masey ac Elinor i gyfarfod â disgyblion yn Ysgol Pengwern er mwyn rhannu syniadau cyn treulio'r prynhawn yn siopa am fwyd, addurniadau a rhosod ar gyfer y disgo.

Diolch hefyd i Brannon am drefnu i'w fand chwarae yn ystod y noson. Roedd hi'n noson llawn hwyl efo dawnsio a chanu ambell gân ar y carioci. Diolch i'r 6ed am drefnu noson lwyddiannus iawn.





Ar nos Lun, 5ed o Chwefror cafodd Bl.13 y cyfle i wylio sioe Karen Owen - Saith Llais. Roedd yn brofiad gwych iddynt gwrdd ag un o feirdd y cwrs Cymraeg a chael cipolwg ar ei cherdd newydd ar y thema 'Ystyr Bywyd.'





***First Lego League*** Ni yw Tîm Egni, tîm roboteg blwyddyn 9 o Ysgol Glan Clwyd yn Llanelwy. Rydym wedi bod yn cystadlu yng nghystadleuaeth roboteg ryngwladol y *First Lego League*. Digwyddiad rhyngwladol yw hwn lle mae timau o blant o 9-16 oed yn ymgymryd ag amrywiaeth o heriau rhaglennu a roboteg, dylunio, busnes a gwaith tîm yn seiliedig ar thema wahanol bob blwyddyn (hydrodynameg oedd thema eleni).

Yn y gystadleuaeth, mae'n ofynnol i'r timau sy'n cystadlu, gynllunio, adeiladu a rhaglennu robot LEGO Mindstorms gydag EV3 i ddatrys nifer o genadaethau yn seiliedig ar y thema a gynlluniwyd gan y First Lego League i wneud i blant feddwl. Yn ogystal â hyn, rhaid i dimau gynhyrchu prosiect yn seiliedig ar y thema.

Rydym wedi bod yn cystadlu yn y digwyddiad ers mis Ionawr ac enillon ni ein twrnamaint rhanbarthol yn Llandudno, Gogledd Cymru yn Ionawr, ac o ganlyniad i hyn, cawsom le yn rownd derfynol y DU ac Iwerddon ym Mryste ddiwedd Chwefror. Buom yn gweithio'n galed iawn i wella ein safon ar gyfer rownd derfynol y DU ac Iwerddon, a chafodd y gwaith caled ei wobrwyo wrth i ni ennill y wobr tîm gorau yng Nghymru!

Gyda'r wobr hon daeth gwahoddiad i gystadlu yn rownd derfynol y Byd yn Detroit, Michigan, a gynhelir ar ddiwedd mis Ebrill! Ni yw'r unig dîm Cymreig i ennill unrhyw wobr ac felly rydym yn falch iawn o gynrychioli ein gwlad.

Yn anffodus, nid yw'r daith i Detroit yn rhad, ynghyd â chost teithio, llety a bwyd ar gyfer tîm o 4 a 2 o oruchwylwyr sy'n oedolion (gan gynnwys 1 athro), Mae'n rhaid i ni hefyd dalu tâl cofrestru uchel er mwyn cystadlu. Ni allwn godi'r arian ar ein pennau ein hunain, ac rydym yn awyddus i sicrhau nawdd. Os oes gennych ddiddordeb yn ein cefnogi, cysylltwch â ni ar ein cyfeiriad e-bost, teamegni@gmail.com. Rydym wedi sefydlu cyfri *Just Giving* (*just giving team egni*). Mae gennym hefyd gyfrif twitter a snapchat, team egni.

Diolch yn fawr iawn i chi am ddarllen yr erthygl hon a gobeithiwn y byddwch yn ymddiddori yn ein hachos!

Tîm EGNI (Julia, Elliott, Osian, Elloise)

**Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed merched o dan 13**, am gyrraedd rownd yr 8 olaf yng nghystadleuaeth Cwpan pêl-droed ysgolion Cymru. Ni fuont yn llwyddiannus i fynd ymlaen i'r rownd gyn-derfynol

**CANLYNIADAU: Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Dinbych 2018.**

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ennill yn yr Eisteddfod yn Rhuthun, Sadwrn, Mawrth 10fed.

***Unawd Merched bl 7 – 9***
2il Erin Davies a 3ydd Siwan Angharad Gwilym Williams

***Unawd Bechgyn Bl. 7-9***
2il Ioan Wynne Jones

***Deuawd Bl. 7-9***
1af Erin a Siwan

***Unawd Merched Bl. 10 a dan 19 oed***
2il Mali Elwy Williams
3ydd Gwen Williams

***Unawd Bechgyn Bl. 10 a dan 19 oed***
2il Dylan Sandland

***Parti Merched Bl. 7, 8 a 9***
1af Ysgol Glan Clwyd Ysgol

***Parti Bechgyn Bl. 7, 8 a 9***
*1af Ysgol Glan Clwyd*

***Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 7, 8 a 9***
2il Lliwen Sion Evans
3ydd Siwan Angharad Gwilym Williams

***Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 10 a dan 19 oed***
2il Gwen Williams
3ydd Owain John Jones

***Unawd Telyn Bl. 7- 9***
1af Julia Bugelli

***Unawd Chwythbrennau Bl. 7- 9***
1af Elliott Maitland Davies

Pob lwc i chi gyd yn Eisteddfod Brycheiniog a Maesyfed yn Llanelwedd ym mis Mai.

**CYMDEITHAS Y BIGWN**

# CYFARFOD

**ym**

# Melin Brwcws

**Nos Iau Ebrill 26ain**


**am 7.30**

**i drafod cefnogi Eisteddfod yr Urdd 2020**

**Am fwy o fanylion cysylltwch â Nerys Davies ar 01745 812239**

# Atgofion Dechreuad Y Bigwn

Ar ôl darllen am Y Bigwn yn dathlu penblwydd yn 30ain oed yn y rhifyn diwethaf, rwy'n teimlo efallai o ran dyletswydd y dylwn i lenwi'r bwlch ynglyn â dechreuad Y Bigwn yn 1988.




Roedd hi'n gyfnod cyffrous yn yr wythdegau ym myd newyddiaduraeth oherwydd y dechnoleg newydd gyfrifiadurol; fe gofiwch efallai yr helynt gyda'r undebau a Rupert Murdoch yn 1986, y 'Wapping Dispute', y streic gan 6,000 o undebwyr y diwydiant papurau newydd. Yn dilyn y streic newidiodd gwaith argraffu papurau newydd am byth.

A'r dechnoleg newydd yma oedd y sbardun i'r Bigwn. Dechreuodd yn gyntaf oll gyda'r Bedol ac yn sgîl llwyddiant y drefn newydd gyda'r Bedol penderfynwyd galw cyfarfod cyhoeddus yn Ninbych i drafod sefydlu papur bro i'r dref. Digwyddodd hyn os ydw i'n cofio'n iawn yn uwch-ystafell y llyfrgell oedd ar y pryd ar Stryd y Bont, sef swyddfeydd Popeth Cymraeg (Y Ganolfan Iaith) heddiw. Aethpwyd ati i ddilyn y patrwm a fabwysiadwyd gan Y Bedol, sef bod gwirfoddolwyr yn dod ynghŷd i deipio'r newyddion a'r erthyglau yn syth i mewn i fol y cyfrifiadur. Digwyddodd hyn naill yn ein tŷ ni ar waelod Stryd y Parc neu yn swyddfa'r gŵr, Cyfrifiaduron Clwyd ar waelod Stryd y Dyffryn, Artisan Windows heddiw.

Fy nghwaith i wedyn oedd cysodi'r cyfan ar sgrin y cyfrifiadur mewn colofnau, i edrych fel papur newydd. Trwy gyfrwng y cyfrifiadur roeddwn yn gallu mesur maint y gofod ar gyfer lluniau a hysbysebion, argraffu wedyn ar A4 a phastio'r cyfan ar fyrddau cyn ymweld â'r argraffwyr a rhoi y papur i'w wely, ond wrth gwrs, nid cyn i Gwilym R a Mathonwy ddarllen a chywiro y proflenni. Pleser mawr a braint i mi oedd cael ymweld â'r ddeuddyn hyn unwaith y mis.

Argraffwyd y rhifynnau cyntaf gan y Printcentre yn Llanferres, y cwmni yma oedd yn argraffu'r Bedol ond yn fuan iawn aeth y gwaith drosodd i Hywel Evans yn Ninbych.

Mae'r Bigwn yn bapur bro, yn bapur cymunedol ac roedd y dechnoleg newydd yn gyfle gwych i gynnwys llawer mwy o bobol yn y broses o greu Y Bigwn; ynghyd â'r golygyddion, y colofnwyr, y cartwnydd, y dosbarthwyr, y darllenwyr proflenni, y rhai oedd yn gofalu am yr hysbysebion, y cadeirydd a'r trysorydd ac yn y blaen, roedd rhai hefyd â'r sgiliau pwysig iawn o allu teipio ac roedd y ffaith fod pawb yn dod ynghŷd gyda'u newyddion i'w deipio ac i'w lwytho i mewn i'r cyfrifiadur yn ddigwyddiad misol cymdeithasol a hwyliog.

Yn 1988 llwyddais i sefydlu busnes bach, Gwasg Laser, i gysodi'r Bedol a'r Bigwn ac amryw o fân bethau eraill fel posteri a thocynnau a thaflenni a llyfrynnau gan ddefnyddio'r cyfrifiadur, yr Apple Mac, a'r meddalwedd arbennig, Pagemaker, ar gyfer y gwaith cysodi. Yn wir, roedd mor newydd a chwyldroadol fe wnaethpwyd eitem ar gyfer cyfres deledu, Tudalen 88 gan Gwmni Rebecca yn disgrifio'r broses ac yn olrhain hanes Y Bigwn. Roedd Tudalen 88 ar S4C yn trin a thrafod pob agwedd o lenyddiaeth, barddoniaeth, awduron a dramodwyr, a braf oedd gweld Papur Bro Dinbych yn eu plith.

Erbyn hyn mae'n hen hanes ac mae hyd yn oed technoleg 1988 yn ymddangos yn ara deg a hen ffasiwn ond bryd hynny, roedd Y Bigwn ar flaen y gad. Rhois y gorau i'r busnes yn 1992 wedi i mi gychwyn cwrs coleg ond aeth y gwaith yn ei flaen yn ddi-drafferth yn nwylo medrus Anwen Davies o Landyrnog.

**Carys Glaberson (Carys Holywell gynt)**

# Byd Bach Iawn



Diddorol iawn oedd darllen llythyr Carys Glaberson y mis diwethaf gan fod Carys (Carys Holywell ar y pryd) a minnau'n ddisgyblion yn yr un dosbarth yn Ysgol Ramadeg Dinbych yn y 60au.

Cyd-ddigwyddiad diddorol arall ydi'r ffaith fod Mathonwy a minnau'n perthyn hefyd gan fod fy hen daid, John Roberts, yn frawd i Robert Silyn Roberts a'r ddau yn frodyr i Ellen Roberts, mam Mathonwy.

Yn ôl Cyfrifiad 1871 roedd fy hen daid, John, yn grydd 19 oed a Robert (R. Silyn Roberts) yn fis oed ac Ellen, mam Mathonwy, heb ei geni!

Yn ôl Cyfrifiad 1881 roedd R. Silyn Roberts yn 10 oed, Ellen, mam Mathonwy yn 7 oed ond dim sôn am fy hen daid, John Roberts. Roedd wedi gadael y nyth ac yn 29 oed!!

Ni wyddwn am Sally a'r cysylltiad teuluol tan i mi ddarllen y Bigwn. Diolch i Mair Spencer, Carys Glaberson ac i'r Bigwn, rydw i'n perthyn i rywun na wyddwn amdani! Waw!! A diolch, Carys, am egluro wrth Sally "ei bod hi a Mathonwy….. o dras arbennig."

**Erfyl Williams**

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

# Chwifiwch y Faner




Peth amser yn ôl, mi fum i'n ddigon ffodus i dderbyn oddi wrth Mrs. Mair Davies, gweddw ein cyn drefwr hoffus, y diweddar Barch Meirion Lloyd Davies, Pwllheli, y gyfrol wreiddiol o flwyddyn gyntaf **Y Faner**. Dyddiad y cyhoeddiad cyntaf oedd Dydd Mercher, Mawrth 4ydd.1857 ac yn dilyn yn wythnosol hyd Ddydd Mercher, Rhagfyr 30ain. yr un flwyddyn.

Mesurau'r tudalennau yw tua phymtheg modfedd o hyd wrth ddeg o led, gyda 12 tudalen yn y rhifyn cyntaf a 16 yn yr olaf.

Y bwriad oedd i gynrychioli Cymru gyfan ac felly mae'r cynnwys dan y penawdau hyn:- Newyddion Crefyddol, Y Senedd, Newyddion o'r Marchnadoedd, Prif Erthyglau, Newyddion Cyffredinol, Newyddion Tramor, Materion Teuluol, Newyddion o Gymru, Pynciau Amaethyddol, Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau a Hysbysebion.

Mae'r print yn fân ac yn straen i'w ddarllen ond, ag ystyried yr amgylchiadau – dim ffôn nag unrhyw un o'r cyfleusterau modern - mae'r cynnwys yn eithaf diddorol.

Antur go fentrus oedd cyhoeddi papur newydd bryd hynny, yn enwedig gan fod nifer o gyhoeddiadau erbyn 1887 wedi profi'n fethiannau, er enghraifft, Encil yr Oes, Y Brython a'r Gwladgarwr. Tasg go anodd yw amcangyfrif gwerth y llafur a gollwyd yn yr ymdrechion hyn. Un rheswm am fethiant cynifer o bapurau oedd y doll oedd ar un adeg yn rôt ar bob un! Hefyd, wrth gwrs, dim ond canran go isel o'r boblogaeth oedd yn gallu darllen.



Thomas Gee

Dechreuwyd cyhoeddi'r Faner dan gyd-olygyddiaeth y Parchedigion William Rees (Gwilym Hiraethog), Thomas Jones (Glan Alun) a John Hughes, Pont Fenai. Er nad oedd Thomas Gee yn un ohonynt, rhaid cyfaddef fod ei ddylanwad ar **Y Faner** o'r cychwyn. Ysgrifennai lawer ynddi ac y mae ei arddull yn amlwg. O ran nodweddion, yr oedd y papur i fod yn "hollol ansectaidd ond yn faner yn erbyn twyll, trawster ac anwiredd."



Gwilym Hiraethog

Ar y 5ed. o Hydref 1859, unwyd hi â'r **Amserau.**

Fe fum i am bron i wythnos gyfan yn pori drwy'r manylion, yn arbennig y cyfeiriadau lleol oedd yn debyg o fod o ddiddordeb i ddarllenwyr Y Bigwn. Dyma enghraifft neu ddwy o gynnwys y gyfrol yn ymwneud â'r dref a'r cylch yn eu ffurfiau gwreiddiol:-

**Damwain.** Gadawyd dau neu dri o blant bychain mewn tŷ yn Lôn y Felin Wynt (Lôn Abraham heddiw) a darfu i fachgen oedd yn chwarae gyda phric o'r tân ei roddi wrth ddillad geneth fach oddeutu 8 oed o'r enw Marged Williams. Rhedodd allan o'r ty â'i dillad yn fflamio a thrwy ei sgrechfeydd, dychrynodd y cymdogion. Aethant ar frys i'w chynorthwyo gan ei throchi mewn dŵr ond nid cyn i'w dillad gael eu llosgi oll ac i'w chorff gael ei llosgi mor arw fel y bu iddi ddioddef yn enbyd, byth er hynny ac yn gorwedd mewn sefyllfa beryglus. Dyma rybudd eto i rieni beidio gadael eu plant yn y tŷ eu hunain.


**Dewiniaeth.** Yn Llys Bwrdeisdref Dinbych ar yr 28ain o Ebrill o flaen John Hughes, maer, a Dr. Evan Pierce, cyhuddwyd Anne, gwraig Thomas Roberts, llafurwr, a Marged Ellis, merch ieuanc, o ladrata wyth bunt oddi ar Ruth o'r Ddwy Acar ym mhlwyf Llanrhaeadr o dan yr esgus o "ddeud ffortun." Ni chafwyd dim o'r arian yn ôl. Traddodwyd y ddwy garchares i gymeryd eu prawf yn y Frawdlys Chwarterol nesaf. Yno dedfrydwyd Anne Roberts i naw mis o garchar a Marged Ellis i chwe mis, y ddwy gyda llafur caled.

**Lladrata dillad** Dygwyd dau o bersonnau, amheus yr olwg, o flaen ynadon y dref ar y 6ed o Fai wedi eu cyhuddo o ladrata dillad oddi ar wrychoedd yn Llandyrnog, Llanrhaeadr, Llangynhafal a lleoedd cyfagos. Traddodwyd hwy i dri mis o garchar yr un.

**Marwolaethau** 8fed.o Fai Mr Richard Wynne o'r Alafowlia, Dinbych yn 74 mlwydd oed. Yr ydoedd yn frawd i'r Parch John Wynne, Rhuthun. Bu yn bregethwr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd am o ddeutu 40 mlynedd.

**Damwain angeuol** Mehefin 10fed.Fel yr oedd bachgen 14eg. oed o'r enw John Davies, oedd yng ngwasanaeth Mr. W. Humphreys, Cotton Hall, yn dychwelyd i'r dref, Ddydd Sadwrn, dychrynodd y ceffyl nes mynd yn hollol aflywodraethus, a chan fod y bachgen yn eistedd ar y crab (*oes na rywun yn gyfarwydd â'r gair yma?*) neidiodd i lawr gyda'r bwriad o ddal pen y ceffyl ond fe'i tarawyd gan yr olwyn ac aeth trosto a llusgwyd ef am amryw lathenni gan fod y tresi wedi ymglymu am ei





Clwydfardd

goesau. Cymerwyd ef i dŷ cyfagos lle y bu farw ymhen ychydig oriau. Y rheithfarn yn y trengholiadl oedd marwolaeth ddamweiniol.

**Ysgol Sul Stryt Henllan** Penderfynodd ewyllyswyr da yr ysgol roddi anrheg o de a bara brith i'r plant ar Ddydd Llun y 6ed. o Orffennaf. Eisteddodd 138 wrth y byrddau gan wneud cyfiawnder â'r ddarpariaeth. Am saith yn yr hwyr anerchwyd y plant yn y capel gan Mr Joseph Evans, Mr Jacob Evans a Mr Parry, Y Bala.

**Ffordd Haearn, Dyffryn Clwyd** Dydd Gwener y 7fed. o Awst cyflawnwyd y ddefod o dorri y dywarchen gyntaf gan Mrs. Townsend Mainwaring, Galltfaenan mewn cae o'r enw Fron Goed ger Dinbych.

**Hysbysiadau Awst 12. Yn eisiau** – Egwyddorwas i ddysgu gwaith Gôf yn y dref hon. Ymofyner â Mr.Owen Evans, Foundry, Dinbych.

**Oedrannau** Oed y dyn gwyn hynaf y mae gennym hanes amdano a fu yn yr Unol Daleithiau yn yr oes bresennol ydoedd 110; y ferch wen hynaf 100; y dyn du hynaf 130; y ferch ddu 120. Gellir sylwi mai caethion oedd y ddau olaf.

**Rhybudd** Dydd Gwener, Medi 16eg., bu farw caseg wedd ddu Mr Owen, Llewenni ger Dinbych. Gan nas gallai'r anifail lyncu dim, wedi iddi farw, agorwyd hi, pan y cafwyd allan achos yr afiechyd. Ychydig fodfeddi uwchlaw yr ystumog cafwyd wy iar, heb ei dorri ac felly attaliai bob peth rhag rhyddfynegfa.

Ymddengys fod y gweision yn gwneud arferiad o roddi amryw bethau i'r ceffylau er mwyn peri iddynt feddu blewyn llyfn.

Effaith caredigrwydd camsyniol gan y gwas oedd peri colled i'w feistr o ddeugain punt.

**Tân** Dydd Mercher, Tachwedd 4ydd.,torrodd tân allan mewn congl o do gwellt yn Lôn Ganol lle y preswyliai William Parry.

Yr oedd yr achos yn anhysbys a bu'r ymdrech i'w ddiffodd yn aflwyddiannus nes i'r holl ddodrefn gael eu dinistrio braidd yn llwyr ac i'r tân ymledaenu i dri o'r tai nesaf, y rhai a losgwyd fel nad oedd dim yn aros ond y muriau.

**Hysbysiad** Dinbych a Mostyn. Y mae cerbyd Y Telegraph yn awr yn rhedeg o'r Farmer's Inn, Dinbych i borthladd Mostyn bob Dydd Llun, Mercher a Gwener i gyfarfod â'r agerfad Y Satellite sydd yn tramwy rhwng Mostyn a Lerpwl ac yn dychwelyd ar Ddydd Mawrth, Iau a Sadwrn. Bydd Y Telegraph yn cychwyn o Ddinbych ddwy awr a hanner cyn yr awr i hwylio. Pris y cludiad 2 swllt.

Richard Lloyd Griffith, Perchenog.

o.n. Roedd y Farmer's Arms ble mae Neuadd y Dref heddiw.

**R.M.(Bobi) Owen**

## Eira Mân,

# Eira Mawr!!!

"Gellir disgwyl rhwng tri a phum cilomedr o eira yng Nghymru."

Dwn i ddim a glywsoch chi eiriau i'r perwyl ar ragolygon y tywydd ar Radio Cymru. Chlywais i mohonyn nhw, ond dywedodd ffynhonnell ddibynadwy iddi hi a chydweithwraig eu clywed ar radio'r car wrth iddyn nhw gyd-deithio adre o'u gwaith un prynhawn y gaeaf hir hwn.

Edrychodd y naill ar y llall cyn glana' chwerthin. Yn wir, bu bron i un o'r ddwy yrru'r car i'r gwrych wrth glywed y fath newydd syfrdanol.

Wedi'r cyfan y mae 3 cilomedr bron yn ddwy filltir, a 5 cilomedr dros dair milltir. Cnwd go dda yn wir. Dydy'r Wyddfa ond ychydig dros cilomedr o uchder!

Dyna beth ydych chi'n alw yn afalans o gamgymeriad.

Dwn i ddim a oedd y person a oedd yn darllen y tywydd wedi ffwndro yn lân. Wrth gwrs, sefyll am y gair centimedr a wna'r talfyriad cm yma, ac yntau wedi meddwl mai cilomedr ydoedd! Mae'n debyg fod yna hen dynnu coes wedyn.

A bod yn fanwl gywir dylem ddefnyddio k yn y talfyriad, yn ôl y gwybodusion. O'r Groeg y daw kilo, felly pam lai. Y mae'r llythyren j wedi hen ennill ei phlwyf yn yr iaith. Byddai rhai ohonoch yn dweud mai'r ateb ydy peidio â defnyddio talfyriadau pan fo yna amwysedd.

Caf fy nhemtio i ysgrifennu 'defnyddiwch fodfeddi a throedfeddi,' ond rydwi'n swnio fel un hollwybodus sy'n cyfrannu'n gyson i golofn llythyrau y Daily Post wrth ddweud hynny.

Ac o sôn am y tywydd, y mae'r BBC dan y lach am ddefnyddio graffeg newydd ar eu rhagolygon. Y cwynion pennaf ydy fod y cyfan mor aneglur, y saethau sydd yn dangos cyfeiriad y gwynt yn edrych fel silidons, a bod yr enw Birmingham yn gorchuddio Canolbarth Cymru yn gyfangwbl.

Fel y byddech chi'n disgwyl o'm 'nabod i, mae'n rhaid imi gytuno â'r cwynwyr yn yr achos hwn. Pam newid rhywbeth a oedd yn gweithio'n iawn.

Gyda llaw, dydwi ers blynyddoedd ddim wedi bod yn hapus â'r graffeg a ddefnyddir gan S4C. Mae'r cyfan mor ddi-enaid.

Gwn - fel y dywed perthynas imi – fod y tywydd yn rhywbeth deinamig ac y gall newid o awr i awr. Mae edrych ar y tywydd ar y cyfrifiadur yn dipyn o obsesiwn ganddo, a rhaid imi gytuno bod honno yn ffynhonnell eithaf dibynadwy.

Ond - a bod yn gwbl onest - y mae defnyddio moch coed ac edrych i gyfeiriad Prion yn fwy tebygol o fod yn gywir inni yn Ninbych!

Cyn cloi, hoffwn longyfarch Jean Gwynn ar ddarogan gaeaf caled yn rhifyn Tachwedd o'r **Bigwn**. Rhian Haf a Derek ewch o'r neilltu. Fedrwch chi ddim cystadlu efo Jean.

A'r tywydd am heddiw? Gallaf gadarnhau'i bod hi'n rhy oer i fwrw eira.

**Stan Lyall**



# Côr Cytgan Clwyd ym Manceinion

Ar yr 11eg. o Chwefror eleni aeth Côr Hŷn Cytgan Clwyd gyda'u harweinyddes Ann Davies, eu cyfeilyddes Morwen Blythin a llond bws o gefnogwyr draw i Fanceinion i gystadlu mewn cystadleuaeth arbennig iawn oedd yn cael ei chynnal yng Ngholeg Cerdd Brenhinol y Gogledd. Enw'r gystadleuaeth oedd y Manchester Amateur Choral Competition (MACC) a oedd eleni yn dathlu deng mlynedd ers ei sefydlu. Roedd 17 o gorau eraill, yn gorau meibion, corau barbershop a chorau cymunedol o bob cwr o Brydain yn cystadlu gyda Chôr Cytgan Clwyd am y gwpan arian a'r clod.

Rhoddodd y côr ifanc, sy'n ymarfer yn wythnosol yng Nghapel y Fron yn Ninbych, berfformiad gwych o'r tair cân yn eu rhaglen, a derbyn canmoliaeth uchel iawn gan y beirniaid am eu geirio eglur, eu tonyddiaeth, undod eu sain a'u lliwio celfydd. Roedd y naws yn y neuadd gyngerdd yn fythgofiadwy ar ddiwedd y gân olaf wrth iddynt dderbyn cymeradwyaeth arbennig iawn gan gynulleidfa oedd yn amlwg wedi cael eu plesio'n arw.


Sioc enfawr, serch hynny, oedd clywed enw'r côr yn cael ei gyhoeddi fel enillwyr y gystadleuaeth!

Daeth uchafbwynt y diwrnod ar ôl i ni dderbyn y gwpan, a'r côr i gyd yn llifo'n fyrlymus i'r llwyfan i ganu un o'u hoff anthemau, "O Gymru" gan Rhys Jones. Wrth wrando'n ôl, mae rhywbeth arbennig am y perfformiad yma. Efallai mai unawdau swynol Dafydd Jones a Lisa Dafydd yw'r rheswm am hyn, ond hefyd gweld criw o ffrindiau sydd wir, yn ymfalchïo yn eu llwyddiant ac yn canu o'u calonnau ac yn cael y fath wefr wrth ganu, ac yn cyrraedd safon mor uchel.

I weld y perfformiadau buddugol ewch ar Youtube Manchester Cor Cytgan Clwyd.

Rydym yn croesawu aelodau newydd atom bob amser. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â'r côr, dewch draw i Gapel y Fron unrhyw nos Iau. Mae'r Côr Iau (11-13 oed) yn ymarfer rhwng 6:15 a 7:30 a'r Côr Hŷn (14-18 oed) rhwng 7:30 a 9:00. Welwn ni chi yno!

**Steffan Dafydd**



Ioan, Aled, Steffan a Dafydd gyda'r gwpan

# Croeso Cymreig ar y Stryd Fawr

Os ydych wedi bod yn siopa yn Ninbych dros yr wythnosau diwethaf, byddwch yn siŵr o fod wedi sylwi bod rhai o'r ffenestri yn Ninbych, yn drawiadol iawn er mwyn cyfleu diwrnod ein Nawddsant.

Cynhaliwyd y gystadleuaeth ffenestri Dydd Gŵyl Dewi gan Fenter Iaith Sir Ddinbych, gyda chefnogaeth Cyngor Tref Dinbych.

Enillydd y gystadleuaeth oedd **Siop Ffotograffiaeth Tony Griffiths** gyda **Siop Garpedi Emporium'** yn ail a **Siop Tŷ Gobaith** yn drydydd.

Ceir lluniau pawb a gymerodd ran yn albwm lluniau **Ffenestri Dydd Gŵyl Dewi 2018** ar dudalen Facebook Menter Iaith Sir Ddinbych

Hoffai'r Fenter ddiolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth yma

Lluniau ar y clawr cefn

Clwb Tenis DINBYCH

Mi fydd Ebrill yn fis prysur iawn i Glwb Tenis Dinbych yn 2018. Yn gyntaf, mae'r llifoleuadau a'r ffens newydd o gwmpas y cyrtiau yn eu lle. Hefyd mi fydd y clwb yn cynnal diwrnod i gofio am eu trysorydd, Alastair McNab, a fu farw ym mis Medi. Mi gafodd Alastair McNab, a oedd hefyd yn Gadeirydd Tenis Gogledd Cymru, 10 mlynedd lwyddiannus yn y clwb, yn denu cymorth grant i roi wyneb newydd i'r cyrtiau yn 2013, denu pedwar noddwr i'r clwb yn 2014, cadw'r tîm cyntaf yn Uwch Gynghrair Gogledd Cymru am 8 mlynedd ac fe gychwynnodd Alastair y broses anodd o wneud cais am y llifoleuadau newydd. Mi roedd Alastair hefyd yn aelod o Fwrdd Tenis Cymru am dair blynedd ac, ar ôl ei farwolaeth ym mis Medi, cytunodd y clwb i gynnal twrnamaint er cof ar Ebrill 7fed.

Mi fydd y llifoleuadau yn cael eu hagor yn swyddogol am 1 o'r gloch, cyn mynd ymlaen at arwerthiant, sy'n cynnwys crys wedi'i lofnodi gan Andy Murray, taleb M&S a chinio dydd Sul. Mi fydd yna wedyn dwrnamaint i'w gofio yn cychwyn am 2 o'r gloch rhwng clybiau tenis Gogledd Cymru. Mae'r clwb wedi codi swm mawr o arian yn barod, ar eu tudalen **justgiving.com/teams/alastairmcnab.** Mi fydd y clwb yn gobeithio codi lot mwy ar y diwrnod ac felly yn annog pawb i ddod i gefnogi'r digwyddiad ar ddydd Sadwrn Ebrill 7fed. am 1 o'r gloch yng Nghlwb Tenis Dinbych.

**Steffan Jones**

**Autoclinic Glyn Evans**



Stâd Ddwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA
Atgyweiriadau damwain, gwaith adfer o safon, jig,
cyfleusterau crasu isel, gwasanaeth cyrchu 24 awr
**Ffôn:(01745) 815141**

# Clwb Pel-droed Dinbych

O'r diwedd, mae CPD Dinbych yn ôl yn chwarae gemau yn dilyn y tywydd gwael ym mis Ionawr a Chwefror.

Cafwyd buddugoliaeth o 1-0 yn erbyn Penrhyn-coch oddi cartref gyda gôl hwyr gan Gareth Partridge. Yn dilyn hyn, colli oedd eu hanes yn erbyn Fflint mewn gêm gartref siomedig o 2-1. Roedd Dinbych yn rheoli yn ystod hanner cyntaf y gêm gyda gôl hwyr gan Josh Davies. Ond er hynny, stori wahanol oedd hi yn ystod yr ail hanner gyda Dinbych yn gadael i'r ymwelwyr ddominyddu a Fflint yna'n dod allan o'r gêm yn enillwyr haeddiannol.

Hanes hollol wahanol oedd hi yn ystod y gêm gartref nesaf ble daeth Holyhead Hotspur i Central Park. 5-1 i Ddinbych oedd y sgôr wedi'r chwiban olaf gyda goliau gan Craig Pritchard (2), Matthew Worrall (2) a Kristian Pierce.

Teithiodd Dinbych i Airbus, Brychdyn ar gyfer gêm oedd i'w chwarae ar eu cae 4G. Airbus oedd ar y blaen cyn hanner amser. Roedd y cloc yn tician i Ddinbych gael gôl yn ôl a diolch i gic anhygoel gan Warren Duckett i'r bocs, fe saethodd Gareth Partridge am y gôl gan roi Dinbych yn gyfartal yn y munud olaf.

Mae Dinbych bellach yn y 6ed safle gyda sawl gêm i'w chwarae yn fwy na'r rhai sy'n uwch na nhw yn y gynghrair. Caernarfon yw'r ffefrynnau i ennill y gynghrair, ac maent ar hyn o bryd gyda 10 pwynt yn fwy na Dinbych.

Bu'n rhaid i'r rheolwr, Eddie Maurice-Jones ddod o hyd i saethwr newydd wedi i Josh Davies adael y clwb i symud i Seland Newydd i weithio ac i chwarae i dîm Tref Melville. Mae'r saethwr Matthew Worrall wedi ymuno â Dinbych o Llay Welfare gan sgorio dwy gôl mewn pymtheg munud yn ystod ei gêm gyntaf yn erbyn Caergybi.

Yn y cyfamser, dim ond un gêm mae'r Ail Dîm wedi chwarae yn ystod y mis diwethaf. Chwaraewyd y gêm yn erbyn Llanberis ar gae 4G CPD y Bala gan nad oedd modd chwarae ar gae Dinbych. Enillon nhw o 5-0 gyda goliau gan Andy Thomas (2), Tom Weir (2) a Rob Lawson.

Canlyniadau cymysg a gafodd tîm Datblygu Dinbych yn ystod y mis gyda dwy fuddugoliaeth yn erbyn Betws y Coed (3-2), a Llysfaen (3-1) mewn gêm gwpan. Colli oedd eu hanes yn erbyn Llandudno Amateurs (2-1), Rhuddlan (5-1) a Llandudno Athletic (2-1). Dan Williams, Alex Thomas ac Ashley Andrews oedd y sgorwyr yn y gêm gwpan wrth i'r tîm symud ymlaen i'r rownd cyn derfynol.

Mae'r Clwb wedi trefnu Noson Chwaraewyr gyda siaradwr gwadd arbennig, Osian Roberts, sef Cyfarwyddwr Technegol FAW. Cynhelir y noson ar Ebrill 13eg yng Nghlwb Rygbi Dinbych. Mae Roberts newydd ei enwi fel rhan o dîm hyfforddi Ryan Giggs yn dilyn ei lwyddiant gyda thîm Chris Coleman yn ystod Ewro 2016. Cost ticed yw £15 y person a fydd yn cynnwys bwffe hefyd, ond cyntaf i'r felin fydd hi! I archebu tocyn, cysylltwch ag Iwan Jones 07788627819 neu Shon Powell 07768383266.

**Iwan Jones**



Jill a Steve

## Pwy 'di pwy yng Nghlwb Pêl-droed Dinbych?

## Ein hysgrifennydd: Steve Whitfield

Mae Steve yng nghanol ei drydydd tymor fel ysgrifennydd Clwb Pêl-droed Dinbych

Mae'n byw yn Ninbych gyda'i wraig, Jill. Maent wedi priodi ers pedair blynedd, ond maent gyda'i gilydd ers pum mlynedd ar hugain. Un mab sydd ganddynt, sef Dan sy'n 19 oed, ac mae gan Jill ferch sef Selina a mab o'r enw Lee, a rhwng y ddau mae ganddynt bedwar o wyrion a wyresau rhwng deunaw ac un oed.

Pan adawodd Steve yr ysgol, aeth i weithio mewn asiantaeth deithio ac yna, wyth mlynedd yn ddiweddarach, fe ymunodd â Heddlu Gogledd Cymru fel Cwnstabl. Yn ystod ei yrfa, gweithiodd yn Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych. Gweithiodd fel rhingyll cyn gorffen fel goruchwyliwr yn yr Ystafell Reoli.

Ymddeolodd bedair blynedd yn ôl ar ôl deg mlynedd ar hugain ac mae bellach yn gweithio fel gyrrwr tacsi i Prompt Travel gyda rhan helaeth o'i waith yn cynnwys cludo plant ar fws mini i Ysgol Tir Morfa yn y Rhyl.

Roedd gan Steve ddiddordeb mewn pêl-droed ers ei blentyndod ond roedd rhaid iddo ymddeol yn gynnar o ganlyniad i anaf i'w goes. Daeth yn ôl i mewn i fyd pêl-droed drwy ddechrau hyfforddi rhai o dimau iau Dinbych. Dywedodd, "Roeddwn i mor lwcus o gael y chwaraewyr lleol gorau o Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Glan Clwyd i chwarae i mi. Rhoddon nhw rai o'r atgofion gorau i mi ac mi fydda i bob amser yn ddiolchgar iddynt am hynny. Enillon ni dlws bob tymor a gan amlaf roedden ni'n ennill teitl Cynghrair Rhyl a'r Cyffiniau a Chwpan y Gynghrair. Es i ymlaen wedi hynny i helpu gyda'r Tîm Ieuenctid dan 18 cyn penderfynu fy mod i angen seibiant."

Ar ei wyliau yn Nhenerife oedd Steve pan gafodd alwad ffôn gan Gadeirydd y clwb, Shon Powell, yn gofyn iddo fod yn Ysgrifennydd. "Dywedais wrtho nad oedd gen i lawer o ddiddordeb, ond doedd Shon ddim am adael i bethau fod, felly dywedais y buaswn i'n ystyried y peth. Pedair awr yn ddiweddarach a minnau'n torheulo, fe ganodd fy ffôn eto. Shon oedd yno, 'Wel, wyt ti di meddwl amdano? Pryd elli di ddechrau?' A dyma ble rydw i wan!"

Mae Steve yn gwneud llwyth o waith i'r clwb ac yn aelod hynod o werthfawr. Mae rhai o'i gyfrifoldebau yn cynnwys cadarnhau gemau gyda'r gwrthwynebwyr, cysylltu gyda'r dyfarnwyr, gwneud y cyhoeddiadau ar ddiwrnod gemau, arwyddo a throsglwyddo chwaraewyr, tynnu lluniau yn ystod y gemau a chyhoeddi nhw ar wefan y clwb.

Mae'r clwb wedi elwa o'i sgiliau camera wrth iddo dynnu lluniau ym mhob gêm ac yna eu cyhoeddi oriau wedyn. Mae hyn yn bendant wedi codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ohonom fel clwb ac mae rhai o'i luniau bellach yn cael eu defnyddio gan gwmnïau cyfryngau eraill hefyd.

Yn ogystal â phêl-droed, mae'n mwynhau mynydda a mynd i'r gampfa. Mae'n rhedeg gwefan ar hanes, hen luniau ac atgofion ar Facebook sy'n cynnwys ei gartref genedigol, Bodfari ac mae wrth ei fodd gyda byd natur a thynnu lluniau o fyd natur.

**Iwan Jones**

## CLWB RYGBI DINBYCH

Doedd gan yr ymwelwyr o Abergele ddim ateb i ddoniau ymosodol (ac amddiffynnol) y Tîm Cyntaf, gan ildio can pwynt heb ymateb. Croesodd yr asgellwr chwith, Kieran Bonar, y llinell bedair gwaith, a llwyddodd Dan O'Sullivan i drosi deg o'r un ar bymtheg cais a sgoriwyd. Sgoriodd un cais yn ogystal, sef cyfanswm o 25 pwynt.

Cafwyd y gêm fwyaf cystadleuol a chyffrous a welwyd ar Gaeau Les Phillips y tymor hwn pan groesawyd Teirw Nant, sef Ail Dîm Clwb Rygbi Nant Conwy. Rownd Gynderfynol Cwpan Ganolradd Gogledd Cymru oedd hon, gyda Dinbych yn amddiffyn eu teitl. Er i'r Teirw reoli cyfnodau helaeth o'r hanner cyntaf, gan brofi cryfder Clwb Nant Conwy, y tîm cartref gariodd y dydd yn y diwedd, o 24-13 o flaen torf fwya'r tymor, i sicrhau gêm yn y Ffeinal yn erbyn y Drenewydd. Croesodd Seren y Gêm, Kieran Bonar, am un cais, gyda chais yr un i David Haydock a Gareth Jones, a dau drosiad gan Dan O'Sullivan.

Sgoriodd Aidyn Jones ddau gais a'r capten Tom Evans ddau drosiad mewn gêm gyfartal i'r Ail Dîm yn Rhosllannerchrugog, gyda sgôr terfynol o 14-14.

Cafodd yr Ieuenctid gychwyn perffaith i'w hymdrech i gadw gafael ar Blât Ieuenctid Gogledd Cymru a enillwyd y llynedd, pan drechwyd yr hen elyn o Ruthun ar Gaeau Les Phillips o 24-10. Roedd buddugoliaeth gyfforddus yn erbyn yr ymwelwyr o Landudno i ddilyn, y tro hwn o 46-13, cyn teithio i Fangor ac ennill o 34-19.

***John Davies***


Plaid Cymru | Party of Wales

**Cyfarfod Cyhoeddus**

**Dyfodol Inffyrmari Dinbych**

**(a materion eraill)**

**Gyda Rhun ap Iorwerth AC**

**Lladmerydd Iechyd Plaid Cymru**



**Nos Iau, Ebrill 26ain am 7yh yn Eirianfa**





TE YN Y GRUG

**Tŷ Te a Delicatessen**

**Coronation Buildings,**
**Lôn Gefn,**
**Dinbych, Ll16 3TE**
**deli@teynygrug.co.uk**

**01745 816576**



Jones & Graham

45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH

CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES

Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim

Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg

01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk



**Hysbyseb Gwasg Helygain**

# Croeso Cymreig yn y Stryd Fawr




Enillydd y gystadleuaeth oedd
**Siop Ffotograffiaeth Tony Griffiths**



**Siop Garpedi Emporium'** yn ail



**Siop Tŷ Gobaith** yn drydydd.



Clwb Rygbi Dinbych. Osh ar garlam yn erbyn Abergele

OS OES ANGEN
COPI PRINT
BRAS
O'R BIGWN
ARNOCH
CYSYLLTWCH
EFO BEDWYR
AR 814497

***GOLYGYDD Mai: Catrin Warren, 3 Bryn Onnen, Dinbych LL16 3PJ***
***814675 catrinwarren@hotmail.com***

Cyhoeddwyd gan: Gymdeithas y Bigwn Cysodwyd gan Hywel Evans ac Argraffwyd gan Wasg Helygain